
**Rhif: 1**

**Rhif y Cais / Application Number : C14/0291/04/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



| | |
| --- | --- |
| Rhif y Cais: | C14/0291/04/LL |
| Dyddiad Cofrestru: | 23/07/2015 |
| Math y Cais: | Cynllunio Llawn |
| Cymuned: | Llandderfel (yn cynnwys Llanfor) |
| Ward: | Llandderfel |
| Bwriad: | CODI 2 TYRBIN GWYNT 57M I'R HYB GYDA CYFANSWM UCHDER O 92.5 M (YN LLE 115M) AT FRIG Y LLAFNAU (UCHAFSWM ALLBWN 5 MW) YNGHYD A THRAC, ADEILAD AC OFFER ATODOL. |
| Lleoliad: | TIR GER BODELITH ISAF, LLANDDERFEL, Y BALA, GWYNEDD, LL23 7LA |

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** GWRTHOD

## 1. Disgrifiad:

1.1 Y cais sy'n cael ei ystyried yw un am godi dwy felin wynt tri llafn gydag uchder i'r both o 57m, trawsfesur tro'r llafnau o 71m ac uchder i flaen llafn o 92.5m ac yn cynhyrchu hyd at 2.5MW o drydan yr un. Roedd y cais gwreiddiol a gyflwynwyd yn gofyn am ganiatâd i godi dwy felin wynt tri llafn yn mesur 115m o uchder i flaen y llafn uchaf. O ganlyniad i atebion yr ymgynghori a gwrthwynebiadau, mae'r cynllun wedi'i leihau.

1.2 Yn ogystal â'r ddwy felin wynt mae'r cynllun hefyd yn cynnwys:

- Adeiladu sylfaeni ar gyfer pob tyrbin, tua 15m2 a 2m o ddyfnder.
- Lleoli, o bosibl, newidydd ger pob melin wynt gyda blwch dur yn mesur 3 x 2.5 x 2.5m.
- Gosod ceblau tanddaearol yn cysylltu'r melinau ag is-orsaf y fferm wynt.
- Adeiladu is-orsaf drydan ac Adeilad Rheoli wedi'u hamgáu gan ffens Ddiogeledd 2m o uchder.
- Adeiladu llwybrau mynediad o gerrig wedi'u malu'n fân 5m o led o'r briffordd i'r safle.
- Adeiladu ierdydd diogeledd dros dro ar gyfer offer, defnyddiau a swyddfa diogeled y safle.
- Adeiladu dau bad craen 990m2 yr un. Bydd tua thraean o'r padiau yn cael ei orchuddio ag uwchbridd a'i dirlunio ar ôl codi'r melinau. Bydd y gweddill yn cael ei adael heb ei orchuddio er mwyn gallu gwasanaethu a thrwsio'r melinau.

1.3 Mae safle'r cais ar dir amaethyddol ar ochr orllewinol Mynydd Mynyllod. Ar ochr ogledd-ddwyreiniol y safle mae Heneb Restredig Mynydd Mynyllod a thu hwnt i hynny mae tair melin wynt gweithredol ym Mraich Ddu. I'r de-orllewin mae hefyd dwy felin wynt weithredol yn Syrior sydd yn Sir Ddinbych.

1.4 Mae nifer o dai annedd ar wasgar trwy'r ardal wledig gyda'r agosaf tua 450m o bellter o'r melinau yn Nhŷ'n Fedw a Cistfean. Mae pentref Llandderfel tua 2.5km i'r de-orllewin. I'r gorllewin mae nifer o dai annedd ar wasgar trwy Bethel. Mae Bethel ar dir is ger yr A494 a rhwng ardaloedd uwch Mynydd Mynyllod a Cefn Cae'r Euni. Mae'r Capel ym Methel yn adeilad rhestredig Gradd II. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn asesu fod 116 o Adeiladau Rhestredig o fewn 5km o ardal yr astudiaeth, y rhan fwyaf yn Llandderfel a Llandrillo. Mae'r Datganiad Amgylcheddol hefyd yn nodi fod pedwar ar ddeg o Henebau Rhestredig o fewn 5km i ardal yr astudiaeth.

1.5 Mae'r dynodiadau tirluniau canlynol hefyd yn berthnasol i'r cais:

- Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy tua 7km i'r gogledd ddwyrain.
- Mae Parc Cenedlaethol Eryri tua 4.5 km i'r de a mwy na 8km i'r gorllewin.

- Mae Tirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol y Berwyn ychydig dros 5km i'r de-ddwyrain.
- Mae'r Bala a Thirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llyn Tegid tua 4.5km i'r de-orllewin.

1.6 Mae'r dogfennau canlynol wedi'u cyflwyno i gefnogi'r cais:

- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Datganiad Cynllunio
- Crynodeb An-Nhechnegol
- Cyfrol 1 Adroddiad i'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys y canlynol:
    - Cyflwyniad
    - Asesiad Effeithiau Amgylcheddol
    - Cwmpasu ac Ymgynghori
    - Dewis safle
    - Disgrifiad
    - Polisi ynni a chynllunio
    - Tirlun a Gweledol
    - Yr Amgylchedd Hanesyddol
    - Chadwraeth Natur heblaw Adar
    - Adareg
    - Sŵn
    - Adnoddau Dŵr ac Amodau'r Ddaear
    - Traffig a Chludiant
    - Economaidd a Chymdeithasol a Defnydd Tir
    - Ymyrraeth Electromagnetig, Cryndod Cysgod, Telegyfathrebiadau, Hedfan ac Iechyd a Diogelwch.
- Cyfrol 2 y Datganiad Amgylcheddol – ffigyrau, rhan ohono'n cynnwys:
    - Cynlluniau a ffigyrau manwl
    - Asesiadau gweledfannau yn cynnwys ffrâm weiren a ffotomontage.
    - Parthau o welededd damcaniaethol
    - Parthau cronnol o welededd damcaniaethol
    - Dynodiadau tirlun
    - Ardal astudiaeth cryndod cysgod a chanlyniadau asesiad.
    - Gwerthusiadau Landmap
    - Asesiadau Sŵn
- Cyfrol 3 y Datganiad Amgylcheddol - Atodiadau.

1.7 Yn ogystal â'r dogfennau uchod cyflwynwyd nifer o ddogfennau ychwanegol mewn ymateb i'r broses ymgynghori. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys:

- Nodyn technegol: Adolygiad o Astudiaeth Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirlun Môn, Gwynedd ac Eryri mewn perthynas â Chynnig Fferm Wynt Bodelith Isaf.
- Adendwm i Bennod 14 o Fferm Wynt Bodelith Isaf – mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd gan yr Uned Hawliau Tramwy Preifat.
- Nodyn Technegol LVIA mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Sir Ddinbych.
- Sylwadau ar Ymatebion i'r Asesiad Amgylchedd Hanesyddol.

1.8 Ar ôl derbyn cynllun diwygiedig i leihau uchder y tyrbinau i 92.5m, derbyniwyd y dogfennau diwygiedig canlynol:

- Datganiad Dylunio ac Asesu
- Cyfrol 1 Cais Cynllunio Diwygiedig – mae'r ddogfen yn cadarnhau y bydd holl elfennau eraill y cais gwreiddiol, gan gynnwys y gallu i gynhyrchu trydan ar ôl codi'r melinau gwynt, yn aros yr un fath. Mae'r ddogfen yn asesu effeithiau'r cynllun llai.

- Cyfrol 2 Ffigyrau'r Cais Cynllunio Diwygiedig – mae'r ddogfen yn cynnwys ffotogyfosodiad, ffrâm weiren ac asesiadau eraill diwygiedig sy'n berthnasol i'r cynllun diwygiedig.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 o Bolisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylai penderfyniadau cynllunio fod yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai fod ystyriaethau cynllunio materol yn dangos yn wahanol. Mae ystyriaethau cynllunio'n cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

CYMRYD DULL RHAGOFALUS – POLISI STRATEGOL 1
Gwrthodir cynigion datblygu a fydd yn cael effaith annerbyniol ac amhendant ar yr amgylchedd, y gymdeithas, yr economi neu ar yr iaith Gymraeg neu gymeriad diwylliannol cymunedau ardal y Cynllun, oni bai y cyflwynir asesiad o effaith priodol sy'n profi heb amheuaeth y gellir negyddu neu leihau'r effaith mewn modd sy'n dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio.

POLISI STRATEGOL 2 – YR AMGYLCHEDD NATURIOL
Bydd amgylchedd naturiol a chymeriad tirwedd yr ardal a golygfeydd i mewn ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Ynys Môn a Llŷn, yn cael eu cynnal neu eu gwella trwy wrthod cynigion datblygu a fydd yn eu niweidio'n arwyddocaol.

POLISI STRATEGOL 3 – TREFTADAETH ADEILEDIG A HANESYDDOL
Bydd treftadaeth adeiledig a hanesyddol yr ardal yn cael ei hamddiffyn rhag datblygiadau a fyddai'n ei niweidio'n arwyddocaol a disgwylir i ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd hanesyddol gyd-fynd â safonau dylunio arbennig o uchel a fydd yn cynnal neu wella'u cymeriad arbennig.

SAFONAU DYLUNIO – POLISI STRATEGOL 5
Disgwylir i ddatblygiad fod o ddyluniad da er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol, lle bynnag y bo hynny'n bosib, i'r dirwedd, yr amgylchedd adeiledig a datblygiad cynaliadwy.

DATBLYGIADAU SY'N CREU RISG – POLISI STRATEGOL 5
Bydd datblygiadau sy'n anghyson â'r angen i warchod gorlifdiroedd neu ostwng y perygl o lifogydd a datblygiadau sy'n creu risg o ddifrod annerbyniol i iechyd, eiddo neu'r amgylchedd yn cael eu gwrthod.

POLISI STRATEGOL 9 - YNNI
Caniateir cynlluniau i ddarparu ynni o ffynonellau adnewyddadwy na fyddai'n niweidio'r amgylchedd neu fwynderau trigolion cyfagos mewn modd arwyddocaol.

POLISI A1 – ASESIADAU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL
Sicrhau y ceir digon o wybodaeth gyda'r cais cynllunio ynghylch unrhyw effeithiau amgylcheddol neu effeithiau tebygol ac arwyddocaol eraill, ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

POLISI A2 = GWARCHOD GWEAD CYMDEITHASOL, IEITHYDDOL A DIWYLLIANNOL CYMUNEDAU
Gwrthodir cynigion a fyddai oherwydd eu maint, eu graddfa neu eu lleoliad yn achosi niwed arwyddocaol i gydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau.

POLISI A3 – EGWYDDOR RAGOFALUS
Gwrthodir cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad priodol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

POLISI B3 – DATBLYGIADAU’N SY'N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILADAU RHESTREDIG
Sicrhau na fydd y cynigion yn cael unrhyw effeithiau niweidiol ar osodiadau Adeiladau Rhestredig a’u bod yn cydymffurfio â nifer o feini prawf sy’n anelu at amddiffyn cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig ac amgylchedd yr ardal.

POLISI B7 - SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD ARCHEOLEGOL
Gwrthodir cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai peidio) neu eu gosodiad. Hefyd, gwrthod unrhyw ddatblygiad fydd yn effeithio ar weddillion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd y gweddillion archeolegol.

POLISI B12 – GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL
Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai’n achosi niwed arwyddocaol i’w cymeriad, eu hymddangosiad neu eu gosodiad.

POLISI b14 – GWARCHOD CYMERIAD TIRWEDD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Gwarchod cymeriad tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri trwy wrthod cynigion sy’n ymwthio’n sylweddol yn weledol, a/neu wedi eu lleoli’n ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd

POLISI B15 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD RHYNGWLADOL
Gwrthodir cynigion sy’n debygol o achosi niwed gadernid safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu at reoli, mwynha a gwarchod nodweddion cydnabyddedig y safleoedd hynny.

POLISI B16 – GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD RHYNGWLADOL
Gwrthodir cynigion sy’n debygol o achosi niwed gadernid safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu at reoli, mwynhau a gwarchod nodweddion cydnabyddedig y safleoedd hynny.

POLISI B17 – GWARCHOD SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD RHANBARTHOL NEU LEOL
Gwrthodir cynigion sy’n debygol o achosi niwed gadernid safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhanbarthol neu leol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu at reoli, mwynhau a gwarchod nodweddion cydnabyddedig y safleoedd hynny.

POLISI B19 – COED, COEDLANNAU A GWRYCHOEDD SY’N CAEL EU GWARCHOD
Gwrthod cynigion sy’n golygu colli neu ddifrod i goed, coedlannau neu wrychoedd sy’n cael eu gwarchod oni bai bod buddion economaidd a / neu gymdeithasol y datblygiad yn gwrthbwyso unrhyw ddifrod.

POLISI B20 - RHYWOGAETHAU A’U CYNEFINOEDD SY'N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL
Gwrthodir cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol uniongyrchol neu anuniongyrchol i rywogaethau a warchodir a’u cynefinoedd oni bai eu bod yn cydymffurfio â nifer o feini prawf sy'n anelu at warchod nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI 22 – DYLUNIAD ADEILADAU
Hyrwyddo dyluniad da adeiladau drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf yn anelu at warchod nodweddion a chymeriad cydnabyddedig a thirwedd ac amgylchedd yr ardal.

POLISI B23 - MWYNDERAU
Gwarchod mwynderau’r ardal drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at warchod nodweddion a mwynderau cydnabyddedig yr ardal.

POLISI B25 – DEUNYDDIAU ADEILADU
Diogelu cymeriad gweledol drwy sicrhau fod deunyddiau adeiladu o safon uchel ac yn cyd-fynd â chymeriad ac ymddangosiad yr ardal.

POLISI B32 - YCHWANEGU AT DDŴR WYNEB
Gwrthodir cynigion na fyddant yn cynnwys mesurau lleihau llif neu fesurau lliniaru priodol fydd yn arwain at ostwng maint a graddfa'r dŵr wyneb fyddai'n cyrraedd ac yn llifo i afonydd a chyrsiau dŵr eraill.

POLISI B33 – DATBLYGIADAU SY'N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD
Gwarchod mwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

POLISI B34 – LLYGREDD GOLAU A GOLEUNI
Sicrhau na fydd cynigion yn amharu'n arwyddocaol ar ddefnydd mwynderau tir cyfagos a'r amgylchedd.

POLISI C1 – LLEOLI DATBLYGIADAU NEWYDD
Tir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a ffurf ddatblygedig Pentrefi Gwledig fydd y prif ffocws ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, adeiladweithiau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun.

POLISI C26 – DATBLYGIADAU MELINAU GWYNT
Gwrthodir cynigion ar gyfer datblygiadau melinau gwynt ar safleoedd o fewn AHNE Llŷn. Mewn lleoliadau eraill, dim ond cynigion ar gyfer datblygiadau melinau gwynt ar raddfa fechan neu rai cymunedol neu ddomestig fydd yn cael eu caniatáu cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf ynghylch eu heffaith ar ansawdd weledol y tirlun a ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol eraill.

POLISI C28 – DIOGELU TIR AMAETHYDDOL
Gwrthodir cynigion a fyddai'n arwain at golli tir amaethyddol graddau 1, 2 neu 3a oni ellir dangos bod angen hollbwysig am y datblygiad ac y gellir profi nad oes tir a ddatblygwyd o'r blaen ar gael ac nad oes tir o raddau amaethyddol is ar gael, heblaw tir ac iddo werth amgylcheddol sy'n gorbwyso ystyriaethau amaethyddol.

POLISI C29 – DIOGELU ADNODDAU DŴR
Gwrthodir cynigion a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol, na ellid ei liniaru neu ei reoli'n effeithiol, i ddŵr wyneb, ffynonellau dŵr daear neu ecosystemau dŵr ir.

POLISI CH 22 – RHWYDWAITH, BEICIO, LLWYBRAU A HAWLIAU TRAMWY
Gwarchodir a hyrwyddir pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy drwy annog cynigion i gynnwys yr uchod yn foddhaol mewn datblygiad a thrwy wrthod cynigion a fyddai'n rhwystro cynlluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau neu hawliau tramwy. Os na fydd hyn yn bosibl, bydd yn rhaid cael darpariaeth addas i ddargyfeirio'r llwybr neu i ddarparu llwybr newydd a derbyniol.

POLISI CH28 EFFAITH DATBLYGIAD AR DEITHIAU
Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau ar raddfa fawr fydd yn creu cynnydd sylweddol mewn teithiau a wneir mewn cerbydau preifat lle na chyflwynwyd mesurau i leihau'r effaith amgylcheddol. Ffefrir datblygiadau sy'n cael eu cynllunio a'u dylunio mewn modd sy'n hyrwyddo'r dulliau mwyaf cynaliadwy ac amgylcheddol dderbyniol o deithio.

POLISI CH33 – DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD
Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf ynghylch mynedfeydd i gerbydau, safonau'r rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

POLISI CH34 – LONYDD BACH CEFN GWLAD
Gwrthodir cynigion datblygu fydd yn creu cynnydd annerbyniol mewn cerbydau ar hyd Lonydd Bach Cefn Gwlad lle disgwylir mai'r prif ddefnyddwyr fydd cerddwyr, beicwyr neu farchogion.

POLISI CH36 – CYFLEUSTERAU PARCIO CEIR PREIFAT
Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, i ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd, un ai ar y safle datblygu neu wrth ei ymyl, yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor ac, ar ôl ystyried pa mor hygyrch yw'r gwasanaeth cludiant cyhoeddus o safle'r datblygiad arfaethedig, pa mor rhwydd fydd hi i gerdded neu feicio yn ôl ac ymlaen o safle'r datblygiad arfaethedig a pa mor agos yw safle'r datblygiad arfaethedig at faes parcio cyhoeddus.

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL – YNNI GWYNT ODDI AR Y LAN (Mehefin 2014)

SUPPLEMENTARY PLANNING GUIDANCE – GOBLYGIADAU CYNLLUNIO (Tachwedd 2009)

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL – CYMERIAD TIRLUN (Tachwedd 2009)

CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL – SAFLEOEDD BYWYD GWYLLT (Ebrill 2010)

**2.3 Canllaw a Pholisïau Cenedlaethol**

Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru (Seithfed Rhifyn, Gorffennaf 2014)

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cadwraeth Natur a Chynllunio (Medi 2009)
Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Ynni Adnewyddadwy (Gorffennaf 2005)

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Sŵn (1997)

Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 12, Llywodraeth Cynulliad Cymru: Datganiadau Dylunio a Mynediad (2009)

Cylchlythyr 60/96 *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol*: *Archeoleg*

Cylchlythyr 61/96 *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth*

**2.4 Ystyriaethau Materol Eraill:**

Nodyn Cyngor Gwybodaeth Landmap, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Rhif 3 – *Asesiad Tirlun a Gweledol o Felinau Gwynt Oddi ar y Lan* (Mehefin 2010),

Asesiad Sensitifrwydd a Chynhwysedd Tirlun Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.
Mawrth 2014

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C14/0390/04/LL – Caniatâd dros dro i osod mast anomedr 80.2 metr i fesur y gwynt. Cymeradwywyd 22/09/14

**4. Ymgynghoriadau**

| | |
| --- | --- |
| Chynghorau Tref a Chymuned | **Ymateb cyntaf:**<br>Gwrthwynebu oherwydd yr uchder a'r effaith y byddai'n ei gael ar yr ardal, mynyddoedd y Berwyn ac ar y Parc Cenedlaethol ac roedd pryder hefyd ynghylch yr effaith amgylcheddol ar yr ardal o amgylch y safle. |

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Cytundeb unfrydol i wrthwynebu oherwydd yr uchder a'r effaith y byddai'n ei gael ar yr ardal, mynyddoedd y Berwyn ac ar y Parc Cenedlaethol. Roedd pryder hefyd ynghylch hefyd ynghylch yr effaith amgylcheddol ar yr ardal o amgylch y safle ac ynghylch y effeithiau tymor byr yn ystod y cyfnod adeiladu a'r effeithiau tymor hir ar ôl gorffen y gwaith.

CADW

**Ymateb cyntaf:**
Mae'r datblygiad arfaethedig ger henebion rhestredig a elwir yn:
ME090 Clostir Mynydd Mynyllod
DE230 Craig yr Uchain
DE287 Ffordd Caergybi: Darn Tŷ Nant
ME015 Gwersyll Caer Euni
ME027 Pont Fawr
ME040 Cylchoedd Cerrig Caer Euni
ME063 Gwersyll Cefn Ddwysarn
NE091 Clostir y Gaerwen, Llangar
ME227 Carnedd Gron Cefn Caer Euni
ME 228 Maen Hir Maen y Rhos
Mae Pennod yr Amgylchedd Hanesyddol (pennod 8) y Datganiad Amgylcheddol sydd i ganlyn y cais hwn yn nodi y bydd y cynnig yn effeithio ar osodiad yr heneb restredig Clostir Mynydd Mynod (ME090). Mae'r bennod yn nodi y bydd y felin wynt arfaethedig yn amlwg yn y golygfeydd allan o'r safle hon ac y bydd hynny'n newid cryn dipyn ar y golygfeydd o'r safle. Mae'r bennod hefyd yn trafod rhyngwelededd y safle hon gyda safleoedd eraill eithaf tebyg ar yr ucheldir, gan gynnwys Gwesryll Caer Euni (ME015), Clostir y Gaerwen (ME091) a Chefn Ddwysarn (ME063).
Mae casgliadau'r bennod hon (fel y gwelir o dabl 8.7) yn datgan mai bychan yw'r newid ar y safleoedd hyn, mai cymedrol yw effaith y datblygiad ac nad yw'r effeithiau, o ganlyniad, yn arwyddocaol. Fodd bynnag, ym marn Cadw, dylanwadwyd ar y casgliadau hyn gan nifer o gam ragdybiaethau:

- Fod amlygrwydd datblygiad o ran heneb yn llai os yw golygfeydd heneb yn banoramig neu'n helaeth.
- Y bydd gwerth treftadaeth heneb yn cael ei leihau, mewn gwirionedd, os bydd angen rhywfaint o ailadeiladu academaidd ar yr heneb er mwyn gwerthfawrogi ei gyfraniad i'r gosodiad o ddiddordeb treftadaeth.
- Fod yn rhaid i 'safleoedd eraill eithaf tebyg' gael cysylltiad y gellir ei brofi rhyngddyn nhw er mwyn gallu ystyried fod unrhyw rhyngwelededd yn arwyddocaol.
- Fod effaith y datblygiad arfaethedig, rhywsut, yn cael ei leihau drwy fod melinau gwynt Braich Du i'w gweld, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb, fod yr effeithiau cronnol yn golygu fod yr effaith yn fwy.

Nid oes ffotogyfosodiad wedi'i gynnwys o Fynydd Mynyllod, Caer Euni nac o unrhyw heneb restredig arall i Cadw allu ystyried yr effeithiau'n iawn ond, o gofio mor agos yw Mynydd Mynyllod i'r safle ddatblygu, natur y topograffeg rhwng y ddau a'r drafodaeth yn yr asesiad treftadaeth (tudalennau 200 - 201) gellir ystyried fod lefel yr effaith yn arwyddocaol ac, felly, yn niweidiol. Gallai'r effaith ar wersyll Caer Euni, Cylch Cerrig Caer Euni a Charnedd Gron Cefn Caer Euni hefyd fod yn niweidiol.

**Mewn ymateb i sylwadau cychwynnol CADW, ymatebodd yr ymgeisydd gyda chais ffurfiol a oedd yn anghytuno'n fras â chanfyddiadau CADW. Mewn ymateb, cyflwynodd CADW y sylwadau canlynol:**

Fel y nodwyd yn ein hymateb cychwynnol dyddiedig 25 Gorffennaf 2014, mae CADW'n anghytuno â'r asesiad sydd i ganlyn y cais ac yn ystyried y byddai'r effaith ar osodiad o leiaf un o'r Henebion

Rhestredig cyfagos yn arwyddocaol. Pe ceid ffotogyfosodiad o'r golygfeydd o bob un o'r henebion cyfagos gellid ystyried hyn ymhellach ond, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddaeth i law gyda'r cais, mae'r effaith ar osodiad Mynydd Mynyllod (ME090) yn enwedig, yn peri pryder.

Ymhellach, ac i ymateb i'r effeithiau cronnol a grybwyllir ym mharagraff olaf ond un o lythyr AMEC (dyddiedig 21 Awst 2014), byddai CADW'n anghytuno gyda'r datganiad 'nad yw effaith y melinau gwynt presennol ym Mraich Du, ar eu pen eu hunain, eisoes yn arwyddocaol'. Cafodd datblygiad Braich Ddu ei ganiatáu bron i ddeg mlynedd yn ôl pan nad oedd y dulliau o asesu effeithiau wedi'u sefydlu mor gadarn a phan nad oedd cymaint o dystiolaeth ar gael ar effeithiau melinau gwynt ar osodiadau mannau hanesyddol. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried y byddai effaith melinau gwynt Bodelith Isaf yn amharu ymhellach ar yr henebion cyfagos.

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Mae'r datblygiad arfaethedig ger henebion rhestredig o bwysigrwydd cenedlaethol a elwir yn Clostir Mynydd Mynyllod (ME090), Craig yr Ychain (DE230), Ffordd Caergybi: Darn Tŷ Nant (DE287), Gwersyll Caer Euni (ME015), Pont Fawr (ME027), Cylchoedd Cerrig Caer Euni (ME040), Gwersyll Cefn Ddwysarn (ME063), Clostir y Gaerwen, Llangar (ME091), Carnedd Gron Cefn Caer Euni (ME227) a Maen Hir Maen y Rhos (ME228).

Ar ôl ystyried yn ofalus yr wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio rydym ni'n **gwrthwynebu** oherwydd effaith y datblygiad ar osodiadau Clostir Mynydd Mynyllod, Gwersyll Caer Euni, Cylchoedd Cerrig Caer Euni a Charnedd Gron Cefn Caer Euni. Mae CADW o'r farn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar osodiad yr henebion hyn sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Eglurir ein dadansoddiad yn fanwl isod ac mae disgrifiad o'r henebion a'u pwysigrwydd wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

**Polisi a Canllawiau ynghylch yr Amgylchedd Hanesyddol.**
Ystyrir ceisiadau am ganiatâd cynllunio yng ngoleuni polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch defnydd tir sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru, nodiadau cyngor technegol a chanllawiau mewn cylchlythyrau. Eglura Polisi Cynllunio Cymru fod buddioldeb cadw henebion a'u gosodiadau'n ystyriaeth faterol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, a yw'r heneb wedi'i restru ai peidio. Ymhellach, mae'n egluro, pan fydd datblygiad arfaethedig yn debyg o effeithio ar olion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol, wedi'u rhestru ai peidio, y dylai fod yna ragdybiaeth o blaid eu cadw yn eu lle heb amharu arnyn nhw. Mae paragraff 17 Cylchlythyr 60/96, Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg, yn ymhelaethu drwy egluro mai ystyr hyn yw bod yna ragdybiaeth yn erbyn cynigion a fyddai'n newid neu'n difrodi'n arwyddocaol neu a fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar osodiad gweddillion sy'n weladwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn egluro y dylai awdurdodau lleol amddiffyn gerddi a pharciau a'u gosodiadau sydd wedi'u cynnwys yn rhan gyntaf Cofrestr Tirluniau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. Hefyd, mae Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Gwynedd yn dangos yn glir y bydd cynigion a fyddai'n niweidio neu'n dinistrio olion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol neu eu lleoliadau (a restrwyd ai peidio) yn cael eu gwrthod.

**Dadansoddiad**
Cais diwygiedig yw hwn am ddwy felin wynt lai, 115 metr i 92.5 metr o uchder i flaen y llafnau. O dan y dosbarthiadau sy'n cael eu cynnwys yn '*Canllawiau Ymarfer: Goblygiadau cynllunio datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel'* (Chwefror 2011) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r fferm wynt hon yn cynnwys dwy felin wynt 'fawr' o rhwng 65 metr a 135 metr o uchder'

Bwriedir codi'r melinau ar dir uchel ar ochr i'r de mewn dyffryn sy'n rhedeg o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain ac i'r de o Gefn Caer Euni. Mae'r grib a ffurfir gan Gefn Caer Euni yn dirlun ucheldir wedi'i gadw dda sy'n gyfoethog o olion archeolegol cyn hanesyddol, llawer yn cael eu cydnabod o bwysigrwydd cenedlaethol drwy eu dynodi'n henebion rhestredig. Ar yr ochr arall i'r dyffryn, mae Clostir Mynydd Mynyllod yn dal yn heneb amlwg ar y brig y gellir ei weld yr un pryd â

thirlun Cefn Caer Euni. Mae'r datblygiad melinau gwynt ym Mraich Ddu ar ben dwyreiniol y dyffryn yn union gyferbyn â Gwersyll Caer Euni. Bwriedir codi'r melinau gwynt o dan sylw yn y cais hwn ar ben gorllewinol y dyffryn, gyferbyn â Charnedd Gron Cefn Caer Euni a nesaf at Glostir Mynydd Mynyllod.

Er gwaethaf sawl cais, ni chyflwynwyd ffotogyfosodiad a fyddai o gymorth i weld llun o'r datblygiad wrth edrych arno o'r henebion rhestredig sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig. Fodd bynnag, mae rhai modelau ffrâm gwifren wedi'u paratoi sydd wedi bod yn ddefnyddiol i ddangos effaith lleihau'r uchder o 115 metr i 92.5 metr ac o help hefyd i ddeall yr effeithiau a allai godi.

Mae lleihau'r uchder wedi cael peth effaith weledol o'r mannau edrych pellach, yn enwedig nad yw both un o'r tyrbinau i'w gweld yn y golygfeydd o Glostir y Gaerwen. Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, ac yn sicr o'r henebau hynny sy'n agosach at y safle ddatblygu arfaethedig, ychydig iawn o wahaniaeth y mae gostwng yr uchder yn ei wneud. Yn benodol, mae'r golygfeydd o Glostir Mynydd Mynyllod - anheddle cyn hanesyddol yn cael ei amddiffyn gan glawdd cerrig a brigiadau naturiol, enghraifft brin yn yr ardal hon - yn dal i gael eu amharu gan y cynigion. Oherwydd topograffeg yr ardal a natur y safle, mae'r melinau gwynt yn meddiannu'r copa agosaf er gwaethaf eu bod 800 metr i ffwrdd. Felly, bydd y datblygiad yn fwgan dros ei osodiad ac yn denu'r llygad yn y golygfeydd o'r safle tua'r de-orllewin.

Mae'r Datganiad Cynllunio diweddaraf (AMEC, Foster, Wheeler, Gorffennaf 2015) yn pwysleisio na fydd y melinau gwynt arfaethedig i'w gweld o'r un golygfeydd ac y mae'r melinau ym Mraich Du wrth edrych o Fynydd Mynyllod. Fodd bynnag, dengys ffigurau 2.14a / 2.14b a ffigwr 2.15 y byddai'r ddwy felin wynt yn amlwg iawn o Gefn Caer Euni ac o'r holl henebion sydd ar y grib, gan gynnwys Gwersyll Caer Euni (ME015), Cylch Cerrig Caer Euni (ME040) a Charnedd Gron Cefn Caer Euni (ME040). Wrth edrych o dirlun yr henebion ar grib Caer Euni, mae'n amlwg bod melinau gwynt Braich Ddu yn amharu ar yr olygfa. Byddai codi rhagor o felinau gwynt mawr yn yr ardal hon yn sicr o gynyddu'r ymdeimlad o fod ynghau, drwy gyflwyno strwythurau amlwg, fertigol, symudol o waith dyn i dirwedd senstitif sy'n nodedig am amrywiaeth a maint gweddillion ei henebion cyn hanesyddol gweladwy, llawer wedi'u dynodi o bwysigrwydd cenedlaethol.

I gloi, mae Cadw'n ystyried y byddai'r cynnig yn cael **effaith andwyol a niweidiol arwyddocaol** ar osodiadau Clostir Mynydd Mynyllod, Gwersyll Caer Euni, Cylchoedd Cerrig Caer Euni a Charnedd Gron Cefn Caer Euni. Cyflwynir y sylwadau hyn heb ragfarnu ystyriaeth Gweinidogion Cymru o'r cais cynllunio pe byddai'n dod ger eu bron yn ffurfiol i'w benderfynu.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

**Ymateb cyntaf:**
Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu caniatau'r cynnig oni bai fod Gwybodaeth ychwanegol yn gallu dangos na fyddai'n cael effeithiau niweidiol ar statws cadwraeth ffafriol Ystlumod.

**Safleoedd**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno gyda chasgliad yr Adroddiad 'Gwybodaeth ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefin' na fydd y cynnig yn effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid cyn belled ag y bydd y gwaith lliniaru arfaethedig yn cael ei gyflawni. Ni fydd y cynigion yn effeithio'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ar nodweddion, diben na chyfanrwydd unrhyw safleoedd gwarchodedig statudol o ddiddordeb ecolegol, daearegol neu geomorffolegol.

**Mawn**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n fodlon gyda chanlyniad yr Adroddiad Crynodeb o Ganfyddiadau Mawn (Marc Alonzi, Walters (UK) Ltd, 07/02/2014). Mae'r adroddiad yn datgan mai dim ond mewn dwy brif ardal (Ardal 1 ac Ardal 2) y mae trwch mawn yn fwy na 0.5m. Ni fyddai'r ddwy felin wynt na'r is-orsaf neu'r ierdydd adeiladu yn cael eu gosod yn yr un o'r ardaloedd hyn. Fodd bynnag, byddai'r llwybr mynediad yn rhedeg yn agos at Ardal 1 mewn rhai mannau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno gyda chasgliad yr adroddiad hwn 'y byddai o fantais i'r llwybr mynediad arfaethedig

redeg mor bell o'r mawn ag sy'n ymarferol' yn Ardal 1 a 'sicrhau fod dŵr ffo yn gallu dal i lifo i'r ardal hon o dir uwch' yn Ardal 2. Bydd angen dangos unrhyw newidiadau i safle'r llwybr mynediad ar gynllun a bydd yn rhaid iddo fodlonni'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd angen dangos hefyd sut y sicrheir y bydd y dŵr ffo yn dal i allu llifo.

**Tirluniau dan Warchodaeth**
Nid yw'r cynnig o fewn neu'n union gerllaw unrhyw dirluniau o dan warchodaeth. Fodd bynnag, rydym yn nodi y bydd y felin wynt tua 7km i ffwrdd o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Rydym yn eich atgoffa o ddyletswydd eich Awdurdod o dan Adran 85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus dalu sylw i ddibenion cadw a gwella harddwch naturiol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Dibenion statudol Ardaloedd o'r fath yw cadw a gwella harddwch naturiol. Bydd y felin wynt hefyd tua 4km o Barc Cenedlaethol Eryri. Rydym yn argymell eich bod yn ymgynghori gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynghylch effaith gweledol melinau gwynt ar y Parc Cenedlaethol.

Gallai'r cynnig fod yn creu effeithiau cronnol ar ddiddordebau tirluniau lleol a / neu ranbarthol, ac rydym yn argymell eich bod yn ymgynghori gyda'ch arbenigwr tirlun mewnol. Dylai asesiad yr Awdurdod o effeithiau cronnol gynnwys prosiectau datblygu ynni eraill, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u caniatáu neu'u cyflwyno fel cais cynllunio, yn ogystal â phrosiectau y gellir yn rhesymol eu rhagweld.

I gloi, gallwn ymhelaethu ar ein barn pan fydd yr wybodaeth y cyfeirir ato uchod ar gael. Yn y cyfamser, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu caniatau'r cynnig.

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**

**Ystlumod**
Nid oes gennym wrthwynebiad i'r cynnig, cyn belled â bod amod ar unrhyw ganiatâd bod yn rhaid, cyn dechrau'r datblygiad, gyflwyno cynllun lliniaru a chwtogi i'w gymeradwyo a'i fod yn cael ei weithredu i fodlonrwydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar ôl ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rydym yn croesawu'r cynnig o strategaeth liniaru (fel sy'n cael ei gynnig gan Amec Environmental & Infrastructure UK Limited), sydd, yn ein barn ni, wedi'i seilio'n bennaf ar gyfyngu ar weithredu'r felin wynt. Rhaid i gynllun cyfgyngu priodol nodi'r paramedrau cyfyngu yn ystod prif dymor gweithgaredd ystlumod (Ebrill i Hydref), gan gynnwys amseru, amodau'r tywydd a hyd y cyfyngu e.e. yn y nos (pan fo ystlumod yn hedfan). Rydym hefyd yn awgrymu y dylid cadarnhau yr adolygir manylebau'r felin wynt i gadarnhau y gellir, mewn gwirioned, ei chyfyngu.

**Tirlun**
Mae cylch gorchwyl tirlun Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys ystyried effeithiau datblygu ar dirlun a mwyder gweledol Parciau Cenedlaethol, AHNEau a'r Gofrestr o Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru.

Gallai'r cynnig effeithio ar Barc Cenedlaethol Eryri. Rydym yn eich atgoffa o ddyletwydd eich Awdurdod o dan Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995 sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus dalu sylw i ddibenion Parciau Cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau ynghylch, neu sy'n effeithio ar, dir o fewn Parc Cenedlaethol. Dibenion statudol Parciau Cenedlaethol yw cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau ei nodweddion.

Gallai'r cynnig effeithio ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Rydym yn eich atgoffa o ddyletswydd eich Awdurdod o dan Adran 85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus dalu sylw i ddibenion cadw a gwella harddwch naturiol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Dibenion statudol Ardaloedd o'r fath yw cadw a gwella harddwch naturiol.

Gallai'r cynnig effeithio ar Dirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Mynyddoedd y Berwyn. Er nad yw hwn yn ddynodiad statudol, mae pennod 6 (adran 6.5.25) Polisi Cynllunio Cymru'n datgan y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried yr wybodaeth yn y Gofrestr o Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol wrth ystyried goblygiadau datblygiadau sydd ar raddfa a fydda â mwy nag effaith leol ar ardal yn y Gofrestr.

**Adolygiad tirlun Cyfoeth Naturiol Cymru:**

Mae'r safle ar gyfer y ddwy felin wynt arfaethedig 4 cilometr y tu allan i ffin Parc Cenedlaethol Eryri, 7 cilometr y tu allan i ffin AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, 4.8 y tu allan i dirlun o ddiddordeb hanesyddol arbennig Mynyddoedd y Berwyn a 4 y tu allan i o dirlun o ddiddordeb hanesyddol arbennig y Bala a Llyn Tegid.

Rydym yn cytuno gyda'r sylw yn Asesiad Effaith Gweledol a Thirlun (AMEC 2014) a gyflwynwyd 'er yn weladwy o nifer o leoliadau .... dim ond mân nodwedd gefndir fyddai'r melinau gwynt, wedi'u lleoli'n glir y tu allan i'r ffinau dynodedig ac mewn tirlun o gymeriad gwahanol".
Fodd bynnag, rydym yn tynnu sylw'r awdurdod cynllunio lleol at y materion canlynol, rydym ni'n teimlo sydd wedi'u hanwybyddu, braidd, yr yr Asesiad Effeithiau Tirlun a Gweledol o ran yr effeithiau ar dirlun yr ardal.

**Effeithiau cronnol ar olygfeydd o Fynyddoedd y Berwyn**
Gallai dau ddatblygiad gwahanol o felinau gwynt ar bob pen i grib Mynydd Mynyllod greu rhywfaint o dyndra gweledol ac effaith ansefydlog ar y golygfa, gyda'r llygad yn cael ei dynnu o un datblygiad i'r llall. Yr effaith fyddai tynnu mwy o sylw na'r datblygiad arfaethedig ar ei ben ei hun. Mae gweledfan llun yr Asesiad Effeithiau Tirlun a Gweledol 16 yn dangos trefniant ofodol y melinau gwynt o fewn golygfa'r tirlun. O fannau yn is i lawr ochr y bryn o weledfan 16 ac o llwybr *Wayfares* (llwybr cerdded a beicio cydnabyddedig yn Nyffryn Ceiriog) mae'r golygfeydd yn llai panoramig ac mae Mynydd Mynyllod yn diffinio'r gorwel cyfagos. Mae'r gwahaniad gofodol a'r berthynas rhwng y ddau ddatblygiad yn debyg o fod yn fwy gweladwy yma ac mae'r effaith gronnol yn debyg o fod yn arwyddocaol.

Byddai'r un effaith cronnol i'w gweld o olygfeydd o fewn tirlun o ddiddordeb hanesyddol arbennig Mynyddoedd y Berwyn. Mae'r effeithiau ar dirluniau hanesyddol yn cael eu hystyried yn wahanol i'r rhai ar dderbynyddion gweledol y tirlun gerllaw. Yn yr achos hwn, ein barn ni yw na fyddai'r effaith cronnol a ddisgrifir uchod yn effeithio'n arwyddocaol ar gymeriad hanesyddol yr ardal gofrestredig.

**Effeithiau ar olwgfeydd o'r Bwlch ym Methel**
Bwlch bychan a chroesfan yw hwn ym Methel sy'n nodwedd amlwg ar deithiau i ac o'r Bala. Mae'r A494 yn ffordd bwysig yn rhanbarthol gyda llawer o draffig. Byddai'r melinau gwynt arfaethedig yn debyg o ymddangos yn sydyn ac fel elfen fawr yn yr olygfa (gweledfan LVIA 2) wrth gyrraedd Bethel ar deithiau tua'r dwyrain. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol oherwydd eu bod mor agos ac mor fawr ar orwel y bwlch bychan hwn. Byddai'r felin wynt agosaf at y bwlch yn arbennig o oresgynol (yn hytrach nag amlwg yn ôl yr Aseisad Effeithiau Tirlun a Gweledol). Er bod yr Asesiad yn gywir fod yr effaith yn arwyddocaol, rydym yn teimlo ei fod yn bychanu'r effaith o ran ei maint a'r teimlad y byddai'r effaith yn ei godi.

**Effeithiau cronnol dilynol o'r A494 a dyffryn Glan yr Afon**
Byddai'r melinau gwynt arfaethedig a'r rhai sydd eisoes ym Mraich Ddu i'w gweld o lawer o olygfeydd dilynol o'r A494 gan gadarnhau presenoldeb nodweddion datblygiad gwynt yn nyffryn Glan yr Afon. Byddai effaith arwyddocaol ar dirluniau'r ardal ac ar canfyddiadau trigolion ac ymwelwyr yn teithio drwy'r ardal.

I grynhoi'r ystyriaeth tirlun uchod, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwrthwynebu'r cais, ond yn tynnu sylw'r Awdurdod Cynllunio Lleol at broblemau tirlun yr ardal sydd wedi'u bychanu yn yr

Asesiad Effeithiau Tirlun a Gweledol.

| | |
|---|---|
| Yr Uned Trafnidiaeth | **Ymateb cyntaf:**<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.<br><br>**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**<br>Rwy'n cyfeirio at y cais uchod ac, yn gyntaf, yn argymell y dylid ymgynghori â Llywodraeth Cymru neu ei asiant, Asiantaeth Gefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, gan y byddai'r cynnig yn effeithio ar rwydwaith cefnffyrdd yr ardal gan arwain at ragor o symudiadau ar gyffyrdd yn ystod y cyfnod adeiladu.<br><br>Mae'r adroddiad yn dangos y disgwylir hyd at 29 o lwythi abnormal ar y safle yn ogystal â symudiadau arferol staff. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y bydd arwynebedd y llwybrau yn 14000 medr sgwâr, sy'n golygu, os bydd eu sylfaeni'n 300mm o ddyfnder ar gyfartaledd, y byddai 4200 metr giwb o gerrig yn cael eu cludo yno. Mae hyn yn 8500 tunnell fetrig, neu 425 o lwythau loriau.<br><br>Argymhellir, felly, y dylai'r ymgeisydd ddangos pa ffyrdd sirol a fydd yn cael eu defnyddio i gario'r cerrig a chytuno ar gytundeb traffig anarferol a chynnal arolwg cyflwr ar y cyd cyn dechrau unrhyw ar waith ar y safle.<br><br>Byddwn hefyd yn argymell cynnwys amod yn gofyn i'r ymgeisydd weithredu'r holl fesurau lliniaru sy'n cael eu rhestru gyda'u manylion ym mhennod 13.6.1 y Datganiad Amgylcheddol.<br><br>Byddwn hefyd yn argymell cynnwys amodau safonol / nodiadau cynghori ynghylch ymgeisio am drwyddedau gwaith stryd Adran 171/184 i adeiladu neu ledu'r fynedfa ac i gytuno ar fesurau rheoli traffig cyn cychwyn. |
| Dŵr Cymru | **Ymateb cyntaf:**<br>Dim ymateb a chyngor arferol.<br><br>**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**<br>Dim ymateb a chyngor arferol. |
| Iechyd yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd | **Ymateb cyntaf:**<br><br>Casgliad y sylwadau: Mae'r ymgeisydd wedi'n bodloni na fyddai'r datblygiad yn achosi effeithiau annerbyniol ar gartrefi cyfagos, yn ôl y cyngor cydnabyddedig sydd ar gael ar hyn o bryd. |

Argymhellir y dylai unrhyw ganiatâd a roddir gynnwys amodau ynghylch sŵn a chryndod fflachiadau cysgod er mwyn amddiffyn mwynderau trigiannol.

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Nodir fod uchder y melinau gwynt arfaethedig yn is erbyn hyn. Nodir hefyd fod eu lleoliad, eu gwneuthuriad a'r model yr un fath. O ganlyniad, mae pellter y cryndod cysgod yn llai ac yn effeithio ar lai o eiddo o gymharu â'r rhai yn yr astudiaeth wreiddiol ar cryndod cysgod.

O ganlyniad, rwy'n fodlon fod y materion ynghylch sŵn a cryndod cysgod a oedd yn yr asesiad gwreiddiol yn dderbyniol a bod y sylwadau gwreiddiol o ran yr angen am amodau'n dal yn berthnasol.

Bioamrywiaeth: **Ymateb cyntaf:**

Mae'r adroddiad ecolegol a gyflwynwyd gyda'r cais hwn fel rhan o'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol yn gynhwysfawr iawn. Arolygwyd adar ac ystlumod yn fanwl am fwy na dwy flynedd ac mae cynefinoedd yn ogystal â mannau mawnog hefyd wedi'u harolygu. Chwliwyd am rywogaethau o dan warchodaeth Ewropeaidd ond yr unig un a ganfuwyd oedd ystlumod. Mae'r safle'n cynnwys un safle ymgeisydd Bywyd Gwyllt (Canol Hafoty a Mynydd Mynyllod), gweler isod.

Cynefinoedd
Glaswelltir wedi'i led wella yw'r rhan fwyaf o'r cynefinoedd o amgylch yr ardal gydag ychydig o laswelltir asidig a rhai mannau gwlyb a chorsiog. Dyluniwyd y datblygiad i osgoi'r mannau gwlyb ar y safle.

Rhywogaethau dan Warchodaeth Ewropeaidd
Chwliwyd am rywogaethau o dan warchodaeth Ewropeaidd ond yr unig un a ganfuwyd oedd ystlumod.

Adar
Dangosodd yr arolygon fod adar megis y gylfinir yn codi o fewn 600 metr i'r safle a bod adar ysglyfaethus megis barcutiaid a bwncathod i'w gweld yn yr ardal weithiau. Ni ragwelir y byddai yna effeithiau negyddol ar adar yn ystod y cyfnod adeiladu nac yn ystod cyfnod gweithredol y melinau gwynt. Dylid datblygu cynllun rheoli i gynnal a gwella'r cynefin a chynefin bridio i adar

- gweler isod.

Ystlumod
Dangosodd arolygon fod hyd at chwe rhywogaeth o ystlumod wedi’i canfod yn defnyddio’r safle. Maen nhw'n dueddol o ddefnyddio'r ardaloedd mwy cysgodol i ffwrdd o osodiad agored y melinau gwynt newydd. Does yna ddim nythod yn agos at safle’r datblygiad ac rwy'n cytuno gyda chasgliad yr adroddiad na ragwelir y byddai’r datblygiad yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar ystlumod.

Mawndir

Arolygwyd y tir i chwilio am bresenoldeb mawn a llwyddwyd i osgoi cynnwys unrhyw fannau mawnog yn y cynlluniau.

Cynllun Rheoli
Bwriada’r datblygwr weithredu cynllun rheoli cynefin ar y safle unwaith y bydd y melinau gwynt yn gweithio. Mae manylion cryno yn y cais ynghylch cynnwys ac amcanion y Cynllun (Strategaeth Rheoli Cynefinoedd Fferm Wynt Isaf Bodelith). Yr amcanion yw dal ati a gwella cynefinoedd gwlypdir a chynyddu’r amrywiaeth o laswellt tal drwy gytundebau pori i gynnyddu’r amrywiaeth o bryfed. Byddai hyn i gyd yn gwella amodau nythu i'r gylfinir ac i rywogaethau eraill.

Dylid cynnwys cynllun monitro fel rhan o’r cynllun rheoli i ganfod effeithiau rheoli’r cynefin. Bydd hyn hefyd o fantais i'r ddwy safle bywyd gwyllt sy’n gysylltiedig â’r safle. Mae digon yn y strategaeth a gyflwynwyd i allu penderfynu ar y cais ond dylid cynnwys amod i sicrhau y bydd y cynllun rheoli'n cael ei gyflwyno i gael ei gymeradwyo gan yr awdurdod o fewn chwe mis o orffen y gywaith ar y melinau gwynt a gwaith cysylltiedig.

Safleoedd Ewropeaidd
Mae safle'r datblygiad o fewn ychydig o gilometrau i dair safle o dan warchodaeth Ewropeaidd.
Mignaint, Arennig, Dduallt (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
Mignaint Arennig Ddualt (Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig)
Mynyddoedd y Berwyn a De Clwyd (Ardal Cadwraeth Arbennig)

Mae'r datblygwr wedi ysgrifennu dogfen ar gyfer cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Fferm

Wynt Bodelith Isaf. Gwybodaeth ar gyfer Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Mawrth 2014.

Mae’r ddogfen yn asesu yr effaith y gallai'r datblygiad ei gael ar y safleoedd Ewropeaidd sydd yma. Fel yr Awdurdod Cymwys i benderfynu ar y cais, rwy'n cytuno â chanlyniadau'r asesiad na fydd yna unrhyw effaith negyddol ar unrhyw un o'r safleoedd Ewropeaidd cyfagos oherwydd adeiladu a gweithredu'r datblygiad.

**Sylwadau mewn ymateb i’r cynllun diwygiedig:**
Dim sylwadau pellach ond cadarnhawyd y dylai’r sylwadau blaenorol fod wedi cynnwys Afon Ddyfrdwy a Llyn Tegid (Ardal Cadwraeth Arbennig) a Mynyddoedd y Berwyn (Ardal Gwarchodaeth Arbennig) a’u bod yn dal i gytuno â chanfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Swyddog Coed:

**Ymateb cyntaf:** Gwrthwynebu, angen mwy o wybodaeth ynghylch y mynedfa a llwybr i’r safle.

**Sylwadau mewn ymateb i’r cynllun diwygiedig:**
Mae’r sylwadau blaenorol yn dal i sefyll.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

**Ymateb cyntaf:**
Mae’r bennod amgylchedd hanesyddol yn ymddangos yn asesiad ystyriol (os weithiau’n gwrth ddweud ei hunan) o’r adnodd a’r effeithiau a allai godi, cymaint ag sy’n bosibl ei ddirnad o ffynonellau wrth ddesg ac o arolwg cerdded y tir. Mae’n syndod nad oes unrhyw sôn y gallai mawn fod yno, er bod y bennod ecoleg yn nodi fod dyluniad y cynllun yn osgoi’r haenau mwyaf arwyddocaol o fawn. Nid yw’n glir ychwaith pam nad oes unrhyw werthusiad wedi’i gynnig, yn enwedig o ystyried hyd y llwybr newydd a’r potensial archeolegol a nodwyd. Does dim digon o dystiolaeth i allu rhagweld (8.8.1) mai cymharol ddibwys fyddai unrhyw olion wedi’u claddu y deuir ar eu traws yn ystod y gwaith ac mai cymharol ddibwys hefyd fyddai effaith hynny. Gellid bod wedi disgwyl cynnal arolwg geoffisegol yn ogystal â thyllu mewn un neu fwy o'r carneddi carega tybiedig, er mwyn cadarnhau ai carneddi carega ydyn nhw mewn gwirionedd ac nid, er enghraifft, garneddi claddu, a allai olygu y dylid eu cadw. Mae’r gwerthusiad a gynigir yn yr asesiad, sef lliniaru, yn anghywir. Pe byddai’r datblygiad yn derbyn caniatâd cynllunio ac y byddai rhaglen lliniaru mewn camau yn briodol, gan gynnwys arolygu, cofnodi a chladdu, ond ni ddylid cynnwys y dewis o liniaru trwy osgoi, pe canfyddid fod y carneddau’n arwyddocaol neu petai archaeoleg is-wyneb arwyddocaol yn dod i’r amlwg.

Nid wyf yn gallu cytuno gyda nifer o’r tybiaethau sy’n sail i’r asesiad effeithiau ar y gosodiad. Yn benodol, rwy’n anghytuno â’r honiad fod cyfnod disgwyliedig y datblygiad o 25 o flynyddoedd yn fyr o gymharu â hynafiaeth y safleoedd dan ystyriaeth ac felly bod unrhyw effeithiau’n ddi-

nod. Mae'r rhagdybiaeth fod yn rhaid i olion gweladwy, hygyrch, fodoli ar safle cyn yr effeithir llawer ar leoliad yn groes i'r rhan fwyaf o'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ar y pwnc, ac mae'r syniad fod angen gwybodaeth arbenigol neu ail adeiladu i'w 'darllen' yn gwneud lleoliad, rhywsut yn llai pwysig, yn rhyfedd ac yn anghyfarwydd.

Ni ddarperir unrhyw enghreifftiau i ddangos yn benodol effeithiau posibl y datblygiad ar leoliadau henebion ac adeiladau rhestredig. Fodd bynnag, gellir dod i gasgliad o nifer o ffotograffau o olygfeydd yn ogystal a'r testun yn y penodau amgylchedd hanesyddol a thirlun a gweladwy. Mae uchder a safle'r melinau gwynt yn golygu y gallai nifer o safleoedd gael eu heffeithio i raddfa fwy neu lai ac er y teimlir fod y rhain yn gyffredinol yn cael eu bychanu yn yr asesiad, maen nhw'n cael eu trafod yn fanwl a does dim llawer o bwynt ail adrodd y casgliadau hyn hyd at syrffed.

Ymddengys y byddai'r cynllun arfaethedig yn cael effaith faterol ar leoliadau pum heneb restredig. O Wersyll Cefn Ddwysarn (ME063), byddai'r melinau'n amlwg yn yr olygfa at Glostir Mynydd Mynyllod (ME090). Awgrymir yn Nhabl 8.7 y gallai'r golygfeydd ymhellach fod wedi cyfrannu at ddewis safle Gwersyll Cefn Ddwysarn, ond yn absenoldeb unrhyw ddeunydd gweledol i gadarnhau hynny a chan mai prin yw'r wybodaeth ynghylch yr heneb, mae'n anodd dyfalu pa mor arwyddocaol y gallai unrhyw ddatblygiad newydd fod o fewn y golygfeydd hyn. O ran Cefn Caer Euni, nodir (Tablau 7.14 ac 8.7) y bydd y melinau'n 'amlwg' o dair heneb – y garnedd gron (ME227), pâr o garneddau cylchog (ME040) a chaer (ME015). Mae amlygrwydd y datblygiad yn bwysig, oherwydd nid ei ymddangosiad yn unig sy'n creu'r effeithiau ond i ba raddau y mae'n amharu ar werthfawrogiad a dealltwriaeth o'r heneb(ion).

Yr effeithiau yn yr achos hwn yw'r newidiadau ar raddfa tirlun, yn hytrach na chysylltiadau penodol, er bod y cyswllt gweledol gyda Chlostir Mynydd Mynyllod (ME090) yn berthnasol. Mae'r henebion yn ffurfio rhan o dirlun cyn hanesyddol ehangach sy'n cynnwys henebion angladdol a defodol cynharach ac anheddle cyn hanesyddol diweddarach. Yn amlwg mae'r tirlun presennol wedi newid ers y gwahanol gyfnodau pan fu pobl yn adeiladu ac yn byw yn yr henebion, ond mae wedi cadw'i gymeriad gwledig amaethyddol sy'n lleoliad cytûn nad yw'n ymddangos sydd wedi'i ddarnio nac yn aflonyddu ar y tirlun cyn hanesyddol, mae llawer ohono'n ucheldir heb ei drin.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn awgrymu na fyddai melinau gwynt Bodelith Isaf yn debyg o effeithio'n drychinebus ar leoliadau henebion Cefn Ddwysarn a Chefn Caer Euni, nac ar gyfanrwydd cyffredinol y tirlun ond, yn achos Caer Euni, byddai'r datblygiad yn ymwthiol ac yn ychwanegu'n faterol at y niwed a achoswyd gan y cynllun presennol ym Mraich Ddu.

Ym mhob un o'r achosion hyn, mae arwyddocâd yr effeithiau yn codi nid yn gymaint o ddylanwad y datblygiad ar olygfeydd allan o'r henebion ag ar ei ddylanwad ar olygfeydd *tuag at* Glostir Mynydd Mynyllod(ME090). Mae Clostir Mynydd Mynyllod ar ben bryn tua 900m o'r melinau a gellir dychmygu ei fod wedi'i ddatblygu yno'n fwriadol i fanteisio ar y safle (er enghraifft, er mwyn bod yn weladwy, er mwyn gallu gweld ymhell, neu am resymau amddiffyn neu ysbrydol / diwylliannol). Mae ffigyrau 7.25, 7.27, 7.29, 7.33 a 7.39 oll yn dangos y byddai'r melinau arfaethedig yn cael effaith weledol arwyddocaol ar leoliad y clostir. Mae'r ffigyrau'n dangos

mai oherwydd eu huchder a'u hagosrwydd, bydd y melinau'n oresgynnol ar y golygfeydd i ac o'r heneb yn agos ac ymhellach i ffwrdd ac o amryw o onglau. Ymhellach, ar y cyd â melinau presennol Braich Ddu, byddai'r datblygiad yn dechrau amgáu'r heneb, yn gorfforol ac yn ganfyddiadol, gyda strwythurau modern, tal gan danseilio'n arwyddocaol werthfawrogiad o'r heneb sydd ar hyn o bryd yn dal i'w gweld yn rheoli'r golygfeydd pellgyrhaeddol ar draws y tirlun.

O gofio'r sylwadau hyn, ystyrir y byddai'r cynllun arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar leoliad heneb restredig ME090, Clostir Mynydd Mynyllod. Mae Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 (paragraffau 10 ac 17) a Pholisi Cynllunio Cymru (paragraffau 6.5.1 a 6.5.9) yn nodi bod effeithio ar leoliadau safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol yn ystyriaeth cynllunio faterol. Ni ellir liniaru'r effaith hwn yn foddhaol ac felly, argymhellir fod y cais cynllunio'n cael ei **wrthod**.

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Ar ôl adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd, rwy'n gallu cadarnhau nad yw'r lleihad arfaethedig mewn uchder wedi newid ein sylwadau ar y cynllun hwn.

Er ei bod yn amlwg y byddai melin wynt fyrrach yn llai amlwg o gymharu, mae'n or-ddweud i honni, fel sydd yn y cais, y byddai hynny'n gwneud llawer o wahaniaeth: byddai hynny'n dilys pe byddai melinau gwynt presennol yn cael eu byrhau ond ni ellir defnyddio'r ddadl honno pan nad oes unrhyw ddatblygiad ar y safle ar hyn o bryd. Ymhellach, mae'r asesiadau archeolegol a threftadaeth diwylliannol a'r asesiad tirlun ac effeithiau gweledol yn dod i'r casgliad na fyddai gostwng uchder y melinau gwynt yn golygu y byddai eu heffeithiau, o gymharu â'r melinau gwynt a gynigwyd yn wreiddiol, yn cael eu hystyried yn llai arwyddocaol o ran yr Asesiad Effeithiau Amgylcheddol.

Mae hynny'n cael ei ddangos yn y ffotogyfosodiadau a'r fframiau wifren newydd lle, mewn rhai achosion, nad oes dim gwahaniaeth i'w weld rhwng y cynigion blaenorol a'r rhai presennol. Yn anffodus mae'r copïau sydd ar gael ar lein o ansawdd gwael a'r fframiau weiren bron iawn yn rhy wan i'w gweld. Fodd bynnag, mae'n eglur, er gwaethaf y bwriad i ostwng eu huchder, y byddai'r ddwy felin wynt yn elfen newydd anghymarus ac ymwthiol ar leoliad yr henebion o'u cwmpas a hynny am y rhesymau sy'n cael eu cynnwys yn ein hymateb blaenorol (27 Mai 2014).

Felly, yn unol â *Pholisi Cynllunio Cymru* (Gorffennaf 2014) a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol*: *Archeoleg*, rydym yn ail adrodd ein hargymhelliad y dylid **gwrthod** y cais cynllunio ar gyfer y datblygiad arfaethedig.

Parc Cenedlaethol Eryri:

**Ymateb cyntaf:**
Oherwydd eu maint a'u lleoliad credaf y bydd y melinau gwynt, ar eu pennau eu hunain ac mewn cyfuniad â melinau gwynt eraill presennol ac arfaethedig yn y gymdogaeth, yn effeithio'n niweidiol ar y golygfeydd i mewn ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri. Er enghraifft:
Ffigwr 7.56 ble bydd llafnau'r melinau'n elfen ymwthiol, symudol yn y tirlun, yn torri ar y gorwel ac yn effeithio'n niweidiol ar leoliad tref hanesyddol y Bala a meindwr Capel Tegid.

Ffigwr 7.60 ble mae’r melinau gwynt unwaith eto’n elfen ymwthiol yn y tirlun y byddai teithwyr ar hyd yr A494, defnyddwyr Llyn Tegid a’r llwybr beicio ochr y llyn yn ei weld.

Ymhellach, mae’r melinau gwynt i’w gweld yn erbyn cefndir mynyddoedd Eryri o rai lleoliadau, er enghraifft:-

Ffigwr 7.52 ble mae’r melinau gwynt yn amlwg yn erbyn cefndir Mynyddoedd yr Aran.

Yn olaf, cydnabyddir yn yr astudiaeth o sensitifrwydd tirlun a gallu yng Ngwynedd ac Eryri, a gynhaliwyd gan Gillespies, fod ardal Llandderfel o sensitifrwydd canol radd – uchel i ddatblygiadau ynni gwynt.

O ganlyniad ystyrir y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio’n niweidiol ar leoliad y Parc Cenedlaethol ac oherwydd hynny, dylid argymell ei wrthod.

**Sylwadau mewn ymateb i’r cynllun diwygiedig:**
Nodaf fod uchder y melinau gwynt wedi’i ostwng i 92.5m i flaen y llafn. Fodd bynnag, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri’n ystyried y bydd y melinau gwynt, oherwydd eu maint a’u lleoliad, yn effeithio’n niweidiol ar y golygfeydd i mewn ac allan o’r Parc Cenedlaethol Eryri. Gweler manylion yn fy llythyr 23 Ebrill 2014.

Nodir y cydnabyddir yn yr astudiaeth o sensitifrwydd tirlun a gallu yng Ngwynedd ac Eryri, a gynhaliwyd gan Gillespies, fod ardal Llandderfel (G12) o sensitifrwydd canol radd – uchel i ddatblygiadau ynni gwynt. Mae’r astudiaeth yn dod i’r casgliad ynghylch yr ardal hon *"Nad oes mewn gwirionedd ddigon o le i ragor o ddatblygiadau ynni gwynt (ag eithrio yn anaml iawn ar raddfa ddomestig, datblygiadau a ddylai gysylltu’n dda ag aneddiadau / adeiladau presennol).”*

O ganlyniad, ystyrir y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio’n niweidiol ar leoliad y Parc Cenedlaethol ac oherwydd hynny mae Parc Cenedlaethol Eryri’n dal at ei **wrthwynebiad** i’r cynnig.

**Ymateb cyntaf:**
Ni dderbyniwyd ymateb.

**Sylwadau mewn ymateb i’r cynllun diwygiedig:**
Ni dderbyniwyd ymateb.

Cyngor Sir Ddinbych:

**Ymateb cyntaf:**
Mae’r crynodeb annhechnegol yn gamarweiniol oherwydd ei fod yn gwneud rhagdybiaethau'n seiliedig ar gynllun nad yw wedi cael caniatâd cynllunio. Felly, does dim cyfiawnhad mewn rhagdybio y byddai effaith y cynllun yn ddibwys o gymharu â Braich Ddu a Mynydd Mynyllod.

Dim ond adrodd y canfyddiadau’r cynllun yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd fferm wynt Mynydd Mynyllod yn cael caniatâd y mae’r crynodeb

annhechnegol; nid yw'n adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.

Mae pryder y byddai datblygiad ynni gwynt arall yn yr ardal hon yn rhoi'r argraff o ddatblygiad fferm wynt yn ymestyn yn gynyddol mewn llinell fylchog o lwyfandir Clocaenog yr holl ffordd i ymyl mynyddoedd Eryri, a fyddai'n effaith gronnol niweidiol ar dirlun y golygfeydd o Fynyddoedd y Berwyn. Byddai hynny'n groes i'r canllawiau yn Nodyn Technegol 8 sy'n datgan y na ddylid caniatau cynlluniau ynni gwynt mawr yn y rhan fwyaf o ardaloedd y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol.

Mae Conwy a Sir Ddinbych wedi comisiynu Asesiad Sensitifrwydd a Gallu Tirlun ar gyfer datblygiadau ynni gwynt. Mae'n dod i'r casgliad fod ardal y strategaeth ger safle'r cais â sensitifrwydd canol radd – uchel i ddatblygiadau ynni gwynt ac yn cynghori, o gofio fod datblygiad ynni gwynt graddfa fawr gerllaw (Braich Ddu), efallai mai dim ond datblygiadau micro y dylid eu caniatáu yno.

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Gofynnwn am ystyried yr effeithiau cronnol posibl ar y tirlun a'r golygfeydd ac effeithiau sŵn y datblygiad, o ystyried maint cynyddol a lledaeniad melinau gwynt ar ffermydd y tu allan i Ardal Chwilio Strategol Coedwig Clocaenog.

Cyngor Sir Powys:

**Ymateb cyntaf:**
Dim sylwadau

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Ni dderbyniwyd sylw.

Scottish Power/Manweb:

**Ymateb cyntaf:**
Ni dderbyniwyd sylw.

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Ni dderbyniwyd sylw.

Ofcom:

**Ymateb cyntaf:**
Dim gwrthwynebiad

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Dim gwrthwynebiad

NATS Safeguarding:

**Ymateb cyntaf:**
Dim gwrthwynebiad

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Dim gwrthwynebiad

Arquiva:

**Ymateb cyntaf:**
Dim gwrthwynebiad

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Ni dderbyniwyd sylw.

| | |
| --- | --- |
| Joint Radio Company: | **Ymateb cyntaf:**<br>Dim gwrthwynebiad<br><br>**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**<br>Dim gwrthwynebiad |
| Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru: | Ni dderbyniwyd sylw. |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn: | **Ymateb cyntaf:**<br>Dim gwrthwynebiad – er budd diogelwch yr awyr mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gofyn am osod goleuadau rhybuddio awyrennau ar y datblygiad arfaethedig. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gofyn am osod, ar y ddwy felin wynt, 25 *candela* gyda golau coch yn fflachio i bob cyfeiriad neu goleuadau is-goch gyda phatrwm fflachio o 60 fflach y funud, 200 – 500ms o hyd ar y man ymarferol uchaf.<br><br>**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**<br>Dim gwrthwynebiad – er budd diogelwch yr awyr mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gofyn am osod goleuadau rhybuddio awyrennau ar y datblygiad arfaethedig. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn gofyn am osod, ar y ddwy felin wynt, 25 *candela* gyda golau coch yn fflachio i bob cyfeiriad neu goleuadau is-goch gyda phatrwm fflachio o 60 fflach y funud, 200 – 500ms o hyd ar y man ymarferol uchaf. |
| Uned Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (draenio tir): | **Ymateb cyntaf:**<br>Ni dderbyniwyd sylw.<br><br>**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**<br>Cyfeiriaf at y cais uchod ac argymhellaf, er mwyn gwarchod mwynderau'r eiddo gerllaw, fod unrhyw ganiatâd cynllunio yn cynnwys y gofynion canlynol:<br><br>Mae nifer o gyrsiau dŵr yn llifo trwy neu gerllaw'r safle. Er mwyn gwarchod mwynderau'r datblygiad arfaethedig a'r eiddo cyfagos, byddwn yn argymell fod unrhyw ganiatâd cynllunio a allai cael ei ganiatáu, yn cynnwys y gofynion canlynol fel amodau:<br>a) Bod y datblygwr yn diogelu'r cyrsiau dŵr.<br>b) Yn unol â gofynion Adran 23 (1) Deddf Draenio Tir 1991 bod y datblygwr yn cyflwyno manylion ei gynigion i ddiogelu'r cyrsiau dŵr i Gyngor Gwynedd i'w Cymeradwyo.<br>Bod y datblygwr yn ysgwyddo costau diogelu'r cyrsiau dŵr.<br><br>Os yw'r ymgeisydd yn bwriadu gosod cwlfer ar y cyrsiau dŵr sy'n llifo trwy neu gerllaw'r safle, er mwyn gwarchod mwynderau'r datblygiad arfaethedig a'r eiddo cyfagos, byddwn yn argymell fod unrhyw ganiatâd cynllunio a allai gael ei ganiatáu, yn cynnwys y gofynion canlynol fel amodau:<br>a) Bod y datblygwr yn diogelu'r cyrsiau dŵr.<br>b) Yn unol â gofynion Adran 263 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936 ac Adran 23 (1) Deddf Draenio Tir 1991 bod y datblygwr yn |

cyflwyno manylion ei gynigion i osod cwlferi ar y cyrsiau dŵr i Gyngor Gwynedd i'w Gymeradwyo.

Bod y datblygwr yn ysgwyddo costau diogelu'r cyrsiau dŵr.

BBC:

**Ymateb cyntaf:**
Ni dderbyniwyd sylw.

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Ni dderbyniwyd sylw.

Y Grid Cenedlaethol:

**Ymateb cyntaf:**
Ni dderbyniwyd sylw.

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Ni dderbyniwyd sylw.

Crown Castle:

**Ymateb cyntaf:**
Ni dderbyniwyd sylw.

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Ni dderbyniwyd sylw.

AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy:

**Ymateb cyntaf:**
Ni dderbyniwyd sylw.

**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
Cafodd y sylwadau canlynol eu cyflwyno ar ran y Cyd Bwyllgor ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd.

"Er bod y datblygiad tua 6.5km y tu allan i'r AHNE, o ystyried ei faint, bydd i'w weld yn glir ar bellter canolig o dir uchel yr AHNE i'r dwyrain ac o ganlyniad bydd yn effeithio ar leoliad tirlun gwarchodedig a'i rinweddau arbennig o 'heddwch, unigedd, gofod a rhyddid', yn enwedig o ran cyfleoedd i brofi 'golygfeydd di-dor ac eang o fannau uchel'. Yn benodol, bydd y datblygiad yn effeithio'n niweidiol ar y rhyng –weledẹdd rhwng tirluniau gwarchodedig yr AHNE a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r pwyllgor yn ystyried fod yr effeithiau hyn yn cael eu bychanu yn y Datganiad Amgylcheddol sydd ynghlwm â'r cais.

Mae'r pwyllgor yn bryderus iawn, iawn am ledaeniad cronnol datblygiadau melinau gwynt ar raddfa fawr y tu allan i ardal Clocaenog sy'n cael ei chynnwys fel Ardal Chwilio Strategol yn Nodyn Cyngor Technegol 8. Mae hyn yn cyfrannu at ymddangosiad tirlun yn cael ei oresgyn gan ffermydd gwynt sy'n cael effaith cronnol, niweidiol, ar leoliad yr AHNE. O'i gymryd ar y cyd â'r ffermydd gwynt sydd eisoes wedi derbyn caniatâd yn yr ardal, effaith y cais presennol fyddai ymestyn y tirlun yn cael ei oresgyn gan felinau gwynt ymhellach i'r de o edrych arno o dir uwch yr AHNE i'r dwyrain a thanseilio ymhellach y golygfeydd o Eryri a'r synnwyr o unigedd y gellir ei fwynhau yn y tirluniau gwarchodedig hyn.

Er gwaethaf y newid diweddar i'r cais i ostwng uchder y melinau gwynt, mae'r Cyd Bwyllgor yn dal i ystyried fod yr effeithiau hyn yn

| | |
| --- | --- |
| | arwyddocaol. Byddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar leoliad a rhinweddau arbennig yr AHNE ac felly, mae'r Cyd Bwyllgor yn gwrthwynebu'r cais." |
| Llywodraeth Cymru | **Ymateb cyntaf:**<br>Ni dderbyniwyd ymateb.<br><br>**Sylwadau mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig:**<br>Ni dderbyniwyd ymateb. |
| Ymgynghori'n Gyhoeddus | Cyhoeddwyd rhybudd yn y wasg, gosodwyd rhybuddion mewn gwanhaol fannau ger y safle a hysbyswyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd nifer o lythyrau / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar y seliau canlynol: |

- Mae'r datblygiad ar raddfa rhy fawr i'r dirwedd leol ac fe fyddai effaith gweledol eithriadol yn deillio ohono
- Fe fyddai'r tyrbinau yn nodweddion diwydiannol estron yn y dirwedd
- Effaith cronnol - fe fyddai'r dirwedd leol yn cael ei dominyddu gan dyrbinau - mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer hyd at 29 tyrbin yn yr ardal hon
- Nid yw'r ffaith bod tri thyrbin arall yn agos i'r safle'n cyfiawnhau anharddu'r ardal ymhellach
- Mae'r ymgeisydd yn honni y byddai'r tyrbinau yn cymryd eu lle mewn rhan o grŵp gyda thyrbinau sydd ddim eto wedi derbyn caniatâd
- Niweidiol i'r golygfeydd o Barc Cenedlaethol Eryri, SDdGA y Berwyn, AHNE Bryniau Clwyd ac o lawer o lwybrau troed ac ardaloedd mynediad cyhoeddus
- Nid yw'r dirwedd yn yr ardal hon yn ddim is ei safon i dirwedd y Parc Cenedlaethol
- Nid oes cynllun i ddatgomisiynnu'r safle
- Mae'n bwysig cofio bod effeithiau ychwanegol oddi wrth ffyrdd, lleiniau caled ayb
- Mae llafnau symudol yn tynnu'r sylw llawer mwy na strwythurau llonydd
- Pryder ynghylch effeithiau cyffredinol cysylltu gyda'r grid cenedlaethol - yn enwedig yr angen am beilonau
- Ni fyddai unrhyw ddatblygiad arall o'r raddfa hon yn dderbyniol yng nghefn gwlad Gwynedd
- Nid yw'r "ffotogyfosodiadau" yn y datganiad amgylcheddol yn adlewyrchiad teg o'r datblygiad
- Nid yw'r asesiad gweledol yn ystyried effaith tyrbinau mawr sydd yn eithaf pell i ffwrdd ond dal yn weladwy yn y dirwedd
- Nid yw'r Datganiad Amgylcheddol yn delio gyda materion yn ymwneud ag "infrasound" na "amplitude modulation" sydd yn beryglon meddygol cydnabyddedig
- Nid yw methodoleg ETSU R97 yn ffurf gyfoes o ddelio gydag effeithiau sŵn
- Nid yw'r asesiad sŵn yn delio gydag effeithiau penodol y dirwedd leol

- Fe fyddai effaith niweidiol ar iechyd a mwynderau trigolion lleol,

yn enwedig oherwydd sŵn a chysgodion symudol

- Mae sawl tŷ yn agos at safle'r tyrbinau ynghyd a phentref cyfan Bethel
- Dylid mabwysiadu'r egwyddor ragofalus wrth ddelio gyda materion iechyd
- Mae'r ffaith i'r cynnig godi pryderon iechyd ymysg pobl leol ynddo'i hun yn ystyriaeth cynllunio
- Fe fyddai perygl trafnidiaeth ac fe fyddai'r tyrbinau'n tynnu sylw gyrwyr ar y briffordd
- Mae un tyrbin ar lwybr cyhoeddus – fe fyddai perygl i ddefnyddwyr

- Effaith niweidiol ar hydroleg yr ardal - fe fyddai niwed i'r lefel trwythiad a thrwy hynny niwed i blanhigion tir gwlyb a ffynonellau dŵr preifat
- Fe fyddai'r datblygiadau'n ychwanegu at broblemau llifogydd
- Fe fyddai'r gwaith yn niweidio ardaloedd o fawn sydd o bwysigrwydd ecolegol
- Effaith niweidiol ar fywyd gwyllt gan gynnwys adar, megis y barcud, ac ystlumod
- Nid yw'r fethodoleg ar gyfer yr arolwg adar a gyflwynwyd yn gyson a'r disgwyl am arolwg gwyddonol.
- Colli gwrych ffawydden aeddfed oherwydd lledaenu'r ffordd

- Mae'r ardal y tu allan i ardal chwilio TAN 8 ac yn erbyn polisïau'r CDU
- Fe fyddai'r datblygiad yn gosod cynsail ac yn ei gwneud yn anos gwrthod rhagor o dyrbinau yn yr ardal
- Ni ddylai unrhyw "fuddion cymunedol" a gynhigir fod yn ystyriaethau cynllunio
- Nid yw pobl leol yn cefnogi'r cynllun.

Cyflwynwyd dogfen "Beirniadaeth ac Asesiad Amgen o'r Effeithiau Tirwedd a Gweledol" gan ymgynghorydd amgylcheddol ar ran rai trigolion lleol. Daw hwn i'r casgliad :

- Na ddylid cynnwys agosatrwydd y cynllun arfaethedig ym Mynydd Mynyllod fel cyfiawnhad dros y cynllun hwn gan nad oes caniatâd cynllunio mewn lle ar gyfer y cynllun hwnnw
- Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn defnyddio tyrbin Enercon E70 E4 2.3MW at ddibenion modelu ond mae'r tyrbin hwnnw'n sylweddol llai na'r tyrbin a ddangosir yn y cynlluniau.
- Gall tyrbinau o'r maint hwn gynhyrchu 2.5MW ac felly fe allasai'r safle gynhyrchu 5MW sydd, yn ôl canllawiau TAN 8, ddim yn dderbyniol mewn safleoedd gwledig y tu allan i "ardaloedd chwilio".
- Fe fyddai'r tyrbinau hyn yn fwy nag unrhyw rai sydd wedi eu hadeiladau ar y tir yng Ngogledd Cymru hyd yn hyn gydag arwynebedd ehangylch llafnau (blade-swept area) mwy na dwywaith maint unrhyw dyrbin a adeiladwyd eisoes.
- Mae'r arwynebedd ehangylch llafnau yn nodwedd bwysig o safbwynt effaith gweledol tyrbinau
- O ystyried y dirwedd fe fyddai uchder y tyrbinau'n 465 a 485m at eu brig sydd yn uwch na rhai Braich Du gerllaw (sy'n 440m)
- Gan i'r tyrbinau gael eu lleoli ar gefnen gymharol isel o dir (o'u

cymharu â'r mynyddoedd o amgylch) mae eu maint yn cael eu hamlygu ymhellach
- Fe fyddai'r tyrbinau'n amlwg iawn mewn llawer o olygfeydd o diroedd agored / llwybrau'r ardal gan niweidio'r golygfeydd amlwg o fynyddoedd megis Aran Fawddwy, Arenig Fawr, y Berwyn a Chader Idris
- Effaith niweidiol ar dwristiaeth yn yr ardal
- Effaith niweidiol ar fusnes twristiaeth breifat
- Mae tyrbinau Braich Ddu yn anharddu'r ardal eisoes ond mae eu heffaith yn gyfyngedig. Fe fyddai caniatáu'r datblygiad hwn gerllaw yn cynyddu'r effaith gweledol yn sylweddol gan amlygu presenoldeb strwythurau peirianyddol estron yn y dirwedd
- Mae'r fethodoleg ar gyfer asesu'r effaith weledol yn y Datganiad Amgylcheddol yn rhy gyfyng - fe ddylid ystyried effeithiau ar sensitifrwydd tirlun ac nid sensitifrwydd "derbynydd" (receptor) yn unig
- Mae angen gwneud asesiad o amrywiaeth mwy eang o welfannau
- Mae'r dadansoddiad "Landmap" yn rhy eang i fod o ddefnydd ac mae problemau gyda dadansoddiad "Landmap" ger y ffin sirol
- Fe fyddai effaith niweidiol ar osodiad nodweddion archeolegol pwysig

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd asesiad gweledol ei hun yn asesu'r datblygiad o'r welfannau a ddefnyddiwyd gan yr ymgeisydd, gan ychwanegu rhai gwelfannau newydd, a defnyddio graddfa o asesu maint effaith mwy cywrain na'r hyn a ddefnyddiwyd yn y Datganiad Amgylcheddol. Dengys yr asesiad hwn i'r effaith gweledol fod yn fwy arwyddocaol na'r hyn a ddangoswyd yn y Datganiad Amgylcheddol o bob gwelfan.

Yn ogystal â'r uchod fe godwyd sawl mater nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio
- Dim yn gynllun arallgyfeirio amaethyddol gwirioneddol – nid yw'r perchennog yn ffermio'r safle ei hun.
- Mae hwn yn fenter busnes diwydiannol
- Lleihad ym mhrisiau tai
- Ni fyddai unrhyw swyddi'n cael eu creu
- Nid yw'r dechnoleg yn ffordd effeithiol o gynhyrchu ynni
- Pryder ynghylch y broses ymgynghori ynghylch y cais

**Ymateb i'r cynllun diwygiedig:**
- Effeithiau gweledol niweidiol ar y tirlun
- Amharu ar y tirlun ac ar y golygfeydd o Barc Cenedlaethol Eryri
- Effeithiau cronnol niweidiol
- Effeithiau niweidiol cryndod cysgodion
- Yn groes i reolau cynllunio Gwynedd o ran uchder.
- Nid yw'n gynllun ar raddfa fechan
- Nid yw'n ddatblygiad cymunedol na domestig
- Bydd llygredd sŵn yn cynyddu'n arwyddocaol
- Bydd i'w weld o Barc Cenedlaethol Eryri
- Mae sawl melin wynt eisoes yn yr ardal a gellid ystyried fod hynny'n fferm wynt y tu allan i ardaloedd chwilio TAN 8.
- Nid oedd pob eiddo cyfagos wedi'u cynnwys yn yr asesiad sŵn, yn enwedig y rhai ar yr ochr gyda'r gwynt.

- Effaith y datblygiad ar ffyrdd a thraffig yr ardal.
- Mae’r asesiadau sŵn yn wallus
- Byddai cael gwared ar wrychoedd ffawydd ar y B4402 yn niweidiol
- Ddim o’r farn y byddai’r datblygid yn ychwanegu gwerth economaidd
- Nid yw problemau ynghylch mawn wedi'u hystyried
- Mae’r sylwadau mewn ymateb i’r cynllun gwreiddiol yn dal yn ddilys
- Mae’r safle wedi’i gwasgu rhwng ardaloedd gwarchodedig
- Dylai ardal y cais fod yn rhan o’r AHNE
- Nid oes cyfeiriad yn y cais at yr effaith ar bryfed a pheillwyr
- Bydd y melinau gwynt yn hynod weladwy
- Eisoes yn dioddef problemau sŵn o Fraich Ddu a bydd y rhain yn llawer agosach. Mae’r effaith gyfun yn peri pryder mawr.
- Mae’r fynedfa’n beryglus.
- Gallai’r melinau fod yn beryglus i adar ac ystlumod a gallai mathau eraill o fywyd gwyllt gael eu peryglu yn ystod y cyfnod adeiladu.
- Mae’n groes i’r Canllawiau Cynllunio Atodol
- Rhy agos at ein cartref, byddai effeithiau'r sŵn yn annerbyniol.
- Niweidiol i leoliadau olion archeolegol. Difetha profiad i ymwelwyr
- Byddai maint y melinau gwynt yn bychanu’r tirlun.
- Effaith negyddol ar fwynderau gweledol
- Byddai’r datblygiad yn amharu ymhellach ar dirlun a oedd, unwaith, heb ei ddifetha.
- Gosod cynsail ar gyfer rhagor o felinau gwynt yn yr ardal.
- Arwain at fwynhau llai ar yr ardal.
- Goresgynnu’r gorwel a’r tirlun.
- Bydd y sŵn i’w glywed o du fewn i’m cartref.
- Bydd y goleuadau coch y mae’r Weinyddiaeth Amddiffyn yn eu mynnu yn fflachio ac yn ffynhonnell arall o lygredd goleuni mewn ardal sydd ag ychydig ohono.
- Dim digon o amser i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau.
- Safle anaddas, rhy agos at SoDdGA Cors y Sarnau
- Bydd cludo’r melinau gwynt yn niweidio fflora a ffawna.
- Effeithiau niweidiol annerbyniol ar ffurf a chymeriad y tirlun a hefyd ar olygfeydd amlwg i, allan ac ar draws canol pentrefi, pentrefi gwledig a chefn gwlad agored.
- Y rhwydwaith ffyrdd lleol yn annigonol ac yn beryglus.
- Nid yw’r cais yn sôn am y 2.6 milltir o geblau, o dan neu uwch ben y ddaear, y byddai eu hangen i gysylltu â’r rhwydwaith trydan.
- Mae’r ardal yn cael ei chydnabod yn adwy i Gymru ac mae’n cael ei difetha gan ormodedd o felinau gwynt.
- Does dim angen cynlluniau o’r fath, mae Cymru eisoes wedi cyrraedd ei chwota o ynni adnewyddol.
- Eisoes yn gallu clywed y ddwy felin wynt a godwyd yn ddiweddar uwch ben Syrior a ddim eisiau rhagor o sŵn.
- Mae’r cynnig yn groes i bolisau’r Cynllun Datblygu Unedol: SP1, SP2, B14, B23, B33, CH19, SP4, B22, C27, CH28, CH33, CH34.
- Nid yw’r cynnig yn diogelu’r golygfeydd i mewn ac allan o’r Parc

Cenedlaethol.

- Mae’r gwaith atodol yn niweidio’r tirlun ac yn groes i SP1.
- Byddai'r melinau gwynt yn cael eu gosod yn ansensitif ac yn ddigydymdeimlad yn y tirlun yn groes i bolisi B14.
- Gorddatblygu
- Pwy fydd yn gyfrifol am waredu’r melinau gwynt pan na fydd defnydd iddyn nhw mwyach?
- Effeithiau niweidiol ar dwristiaeth
- Bydd y melinau gwynt i’w gweld yn union o flaen yr eiddo gan, o bosibl, achosi llewyrch neu fflachiadau ysbeidiol.
- Bydd y melinau gwynt yn goresgynu blaenau dyffryn Dyfrdwy’n llwyr.
- Nid yw datblygiad diwydiannol o'r math yma byth yn rhywbeth y gellir ei anwybyddu.
- Nid yw melinau gwynt yn hanfodol nac yn berthnasol i weithgareddau amaethyddol.
- Er gwaethaf cwtogi ychydig ar eu huchder, mae’r melinau gwynt yn dal yn enfawr.
- Peryglus i awyrennau’n hedfan yn isel ac i hedfanwyr awyrennau microlite.
- Sŵn yn peryglu marchogion
- Effeithiau cronnol yn dechrau troi’r tirlun yn barc diwydiannol.
- Effeithio’n negyddol o Lyn Tegid
- Pryder ynghylch ceblau a chysylltiad â'r grid.
- Mae’r melinau gwynt eisoes wedi newid cryn dipyn ar y dirwedd yr ardal hon.
- Byddai’r goleuadau y mae’r Weinyddiaeth Amddiffyn eu hangen yn weledol ymwthiol mewn ardal lle nad oes ond ychydig iawn o lygredd goleuni.
- Dal i wrthwynebu er gwaethaf cynllun llai.
- Effeithio ar iechyd a lles.
- Niweidiol i’r tirlun, yr amgylchedd ac i dreftadaeth.
- Byddai’r llwybr mynediad arfaethedig yn ddolur parhaol ar y tirlun
- Byddai’r effeithiau'n groes i hawliau dynol.
- Effeithiau cronnol negyddol ar y tirlun ac effeithiau gweledol negyddol.
- Effeithiau niweidiol ar gymeriad ac ymddangosiad Mynydd Mynyllod a Llandderfel.
- Goleuadau’n fflachio ar ein heiddo ddydd a nos.
- Sefydlwyd TAN 8 i amddiffyn rhag datblygiadau enfawr.
- Unwaith y bydd tirlun wedi'i ddifetha, ni ddaw byth yn ôl.
- Ychydig yn llai o effaith, ond ddim digon i newid yr asesiad gwreiddiol a’r gwrthwynebiad a gyflwynwyd.
- Nid yw maint yr effeithiau’n cal eu newid gan y cynllun llai.
- Mae’r gwaelodlin cronnol wedi newid ers cyflwyno’r cais yn gyntaf ac nid yw’r cynllun diwygiedig yn ystyried hyn. Mae’r newidiau’n yn cynnwys:
    - Mae cynllun arfaethedig Mynydd Mynyllod wedi’i dynnu’n ôl yn llwyr erbyn hyn.
    - Mae’r ddwy felin wynt yn Sirior yn gweithio erbyn hyn.
    - Cyflwynwyd cais am un felin wynt 48 metr yn Tyfos, Sir Ddinbych.

  Dylai’r sefyllfa gronnol newydd, felly, fod yn ystyriaeth faterol.

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod a dderbyniwyd, codwyd sawl mater nad yw'n ystyriaeth cynllunio faterol.

- Yn aml iawn, nid yw'r tair melin wynt ym Mraich Ddu'n gweithio, beth yw pwynt cael rhai eraill pan ddylid defnyddio'r rhain?
- Nid oes gan y cwmni gysylltiad lleol
- Nid yw'r cynlluniau o fudd i'r gymuned, dim ond i'r tirfeddiannwr.
- Dibrisio eiddo.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol ynghylch datblygiadau ynni adnewyddadwy yn cael ei ddangos ym Mholisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 7 a'r Nodyn Cyngor Technegol 8 cysylltiedig: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (Cyngor Nodyn Technegol 8). Ceir canllawiau pellach yn y Canllawiau Ymarfer. Goblygiadau Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel, Chwefror 2011 (Canllaw Ymarfer).

5.2 Mae'r polisi cenedlaethol yn adlewyrchu egwyddor ganolog Llywodraeth Cymru o ddatblygu cynaliadwy a'r rôl y gall ynni adnewyddadwy, ac yn enwedig ynni gwynt, ei chwarae mewn lleihau newid hinsawdd gyda'r nod o gyrraedd gostyngiad o 40% yn y nwyon tŷ gwydr erbyn 2020.

5.3 Mae'r safle y tu allan i unrhyw Ardaloedd Chwilio Strategol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 8. Y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol mae angen cael cydbwysedd rhwng dymunoldeb ynni adnewyddadwy a gwarchod tirlun. Mae Paragraff 8.4 o Atodiad D Nodyn Cyngor Technegol 8 yn cyfeirio at yr amcan penodol, y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol, i gynnal cymeriad y tirlun (h.y. dim newid arwyddocaol i gymeriad tirlun o ganlyniad i ddatblygiad melinau gwynt). Mae hefyd yn datgan, er mwyn *cynnal integriti ac ansawdd y tirlun* o fewn Parciau Cenedlaethol / AHNEau Cymru, na ddylai datblygiad melinau gwynt achosi unrhyw newid yng nghymeriad tirlun.

5.4 Yn unol ag amcanion Polisi Strategol 9 y Cynllun Datblygu Unedol, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gefnogol mewn egwyddor i'r bwriad o gynhyrchu ynni adnewyddadwy gyda melinau gwynt, yn amodol ar ystyried, a chydymffurfio, â'r holl faterion cynllunio perthnasol. Fel y nodir uchod, mae nifer o'r polisïau yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn berthnasol wrth benderfynu ar gais unigol am felinau wynt.

5.5 Mae Polisi C1 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn berthnasol i leoli datblygiadau newydd ac yn datgan y canolbwyntir yn bennaf ar dir o fewn ffiniau datblygu trefi a phentrefi a'r ffurf ddatblygedig o bentrefi gwledig ar gyfer datblygiadau newydd. Gwrthodir adeiladau, strwythurau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad ar wahân i ddatblygiad sy'n cael ei ganiatáu gan bolisi arall yn y Cynllun. Mae datblygiadau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n defnyddio adnoddau naturiol yn cael eu nodi'n benodol fel rhai a allai fod yn addas os yw polisi arall yn y Cynllun yn eu cymeradwyo; felly, ystyrir fod y cynnig yn cydymffurfio â gofynion y polisi yn y ffordd yma. Fodd bynnag, mae'r polisi hefyd yn datgan y bydd adeiladau, strwythurau a chyfleusterau atodol newydd yng nghefn gwlad yn cael eu rheoli'n llym ac y dylid sicrhau bod perthynas weledol dda rhyngddyn nhw a datblygiadau sy'n bodoli eisoes ble bynnag y bo hynny'n bosibl.

5.6 Y prif bolisi i'w hystyried wrth asesu egwyddor y datblygiad hwn yw polisi C26 y Cynllun

Datblygu Unedol. Mae Polisi C26 yn ymdrin yn benodol â datblygiadau melinau gwynt ac yn adlewyrchu Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol. Mae'r polisi'n datgan y bydd 'cynigion am ddatblygiadau melinau gwynt o fewn AHNE Llŷn yn cael eu gwrthod. Mewn lleoliadau eraill, dim ond cynigion ar gyfer datblygiadau melinau gwynt ar raddfa fechan neu rai cymunedol neu ddomestig fydd yn cael eu cymeradwyo, a hynny os bydd pob un o'r meini prawf a nodir yn cael eu cyfarfod.' Mae'r meini prawf yn datgan:

1) na fyddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar leoliad AHNEau Llŷn, Môn neu Barc Cenedlaethol Eryri;
2) bod unrhyw ddatblygiadau atodol cysylltiedig yn cael eu dylunio a, ble bynnag bo'n bosibl, eu lleoli er mwyn lliniaru'u heffaith gweledol arfaethedig;
3) na fydd y datblygiad (yn unigol neu ar y cyd gyda datblygiadau melinau gwynt eraill) yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar y tirlun nac ar adnoddau cadwraeth natur;
4) na fyddai'r melinau gwynt yn achosi unrhyw effaith neu ddifrod amgylcheddol annerbyniol posibl ar fwynderau, gan gynnwys sŵn, adlewyrchiad golau a chryndod cysgod;
5) na fyddai'r datblygiad yn creu ymyrraeth electrofagnetig arwyddocaol i systemau trosglwyddo neu dderbyn presennol na ellid eu lliniaru'n ddigonol;
6) fod darpariaeth ddigonol wedi'i gynnwys yn y cynllun mewn perthynas â dad-gomisiynu, adfer ac ôl ofal o'r tir.
7) ni fyddai'r datblygiad yn achosi niwed arwyddocaol i ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol, yn enwedig o fewn neu ger ardaloedd dynodedig.

5.7 Mae Polisi C26 yn ystyried mai datblygiad melinau gwynt cymunedol neu raddfa fechan yw datblygiad nad yw'n gallu cynhyrchu mwy na 5MW. O ran gallu cynhyrchu, nid yw'r cynnig yn cydymffurfio'n llawn gyda'r elfen yma o'r polisi gan ei fod yn datgan llai na 5MW yn benodol. Er gwaethaf lleihau'r cynllun, mae'n amlwg y byddai'r cynllun yn dal i allu cynhyrchu 5MW. O dderbyn nad yw'r cynllun yn gallu cynhyrchu mwy na 5MW, efallai nad yw hynny ynddo'i hunan yn rheswm digonol ar ei ben ei hun i wrthod y cais. Fodd bynnag, mae'n dangos fod y cynllun o faint sydd ar drothwy'r hyn sy'n derbyniol o fewn polisi'r Cynllun Datblygu ac mewn ardal sydd y tu allan i unrhyw Ardal Chwilio Strategol. Mae Paragraff 2.13 o Nodyn Cyngor Technegol 8 hefyd yn datgan ei fod yn dderbyniol gwrthod caniatâd cynllunio am ddatblygiadau dros 5MW y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol a safleoedd llwyd trefol / diwydiannol.

5.8 Ystyrir fod yr holl feini prawf ym mholisi C26 yn berthnasol ac maen nhw'n derbyn sylw isod, ynghyd â'r polisïau cynllunio perthnasol yn yr adroddiad hwn. Yn ogystal, cafodd Canllaw Cynllunio Atodol 'Ynni Gwynt ar y Tir' ei fabwysiadu gan Gyngor Gwynedd fis Mehefin 2014. Mae'r Canllaw yn pwysleisio, wrth ymdrin â cheisiadau melinau gwynt, fod yn rhaid taro cydbwysedd rhwng cyfraniad y dechnoleg hon at dargedau cenedlaethol am ynni adnewyddadwy ac unrhyw effaith niweidiol y gallai'r datblygiad ei gael ar ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol lleol.

5.9 Mae'r Canllaw hefyd yn cyfeirio at astudiaeth a gomisiynwyd i sensitifrwydd tirlun ac asesiad gallu am rai datblygiadau a wnaed gan Gillespies. Mae'n datgan nad oes, o fewn ardal cymeriad Llandderfel, mewn gwirionedd unrhyw le am ragor o ddatblygiadau ynni gwynt (ag eithrio, yn anaml iawn, ddatblygiad ar raddfa domestig a ddylai gysylltu'n dda ag aneddiadau / adeiladau presennol).

5.10 Ystyrir mai'r prif faterion wrth asesu'r cais hwn yw effaith y datblygiad arfaethedig o ran:

**Datblygiadau Ategol a Datgomisiynu**

5.11 Mae maen prawf 2 Polisi C26 yn ymwneud â datblygiadau ategol cysylltiedig megis adeiladau, ffyrdd ac ati ac mae'n datgan y dylid eu dylunio a'u gosod, mewn ffordd sy'n lliniaru eu heffaith weledol lle bynnag y bo modd. Mae maen prawf 6 y polisi'n ymwneud â datgomisiynu, adfer tir ac ôl-ofal pan ddeuai'r defnydd i ben.

5.12 Daeth gwrthwynebiadau i law yn datgan nad oedd manylion ynghylch datgomisiynu wedi'u cyflwyno fel rhan o'r cais. Os caiff y cais ei gymeradwyo, mae modd rheoli materion ynghylch datgomisiynu, adfer tir ac ôl-ofal gydag amodau priodol pan ddaw'r defnydd i ben. Byddai hyn yn sicrhau fod y cynllun yn unol â maen prawf 6 polisi C26.

5.13 Rhestrir y datblygiadau sy'n ategol i'r tyrbinau ym mharagraff 1.2 yr adroddiad hwn. Bydd compownd y safle i'r gorllewin o Fferm Bodelith a'i adeiladau fferm cysylltiedig. Nid yw'r man hwn yn tynnu sylw yn y tirlun a byddai wedi'i guddio'n rhannol gan adeiladau sydd eisoes yno. Nid ystyrir y byddai'r elfen hon yn niweidiol i'r tirlun cyfagos nac i'r mwynder gweledol neu breswyl.

5.14 Ar gyfer cyfnod y gwaith adeiladu, bydd compownd diogelwch ger y fynedfa i'r safle oddi ar y B4402. Ceir coed sylweddol i'r gorllewin o'r fynedfa newydd ac mae'n rhan o ffin llinell goch safle'r cais. Nodir y câi'r pafin glaswelltog cellog ei ddefnyddio yn y man hwn fel llecyn caled ar gyfer y compownd diogelwch. Fodd bynnag, pe rhoddid caniatâd, byddai'n rhaid cynnwys amodau i sicrhau y câi coed eu cadw a'u diogelu am gyfnod y gwaith. Gan fod y man hwn ger y brifford gyhoeddus, mae modd ei weld yn glir a byddai'n rhaid hefyd gynnwys amodau i sicrhau fod y man yn glir ac wedi'i adfer unwaith y byddai'r tyrbinau'n weithredol. Mae swyddog coed y Cyngor yn parhau i fod â phryderon ynghylch effeithiau'r datblygiad ar goed a llwyni sy'n arwain o'r A494 i fynedfa safle'r cais. Er bod y Datganiad Amgylcheddol yn nodi mai ychydig o fannau'n unig y gellid effeithio arnynt - mannau y gellid adfer hyn unwaith y byddai'r cyfnod adeiladu wedi'i gwblhau, ystyrir o hyd nad yw'n ddigonol asesu union effaith y rhan hon o'r datblygiad. Os bydd y Pwyllgor Cynllunio'n penderfynu cymeradwyo'r cais, byddai'n rhaid i'r penderfyniad ddirprwyo'r pwerau i'r rheolwr cynllunio iddo ef gymeradwyo'r cais ar yr amod y ceir rhagor o wybodaeth ac ymateb boddhaol gan Swyddog Coed y Cyngor.

5.15 Bydd adeilad rheoli'r safle a'i is-orsaf i'r gogledd-ddwyrain o dyrbin1. Byddai'r adeilad rheoli'n 13.7 x 9.3m ac mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau y bydd gan yr adeilad wyneb o gerrig a tho llechi. Fodd bynnag, mae modd rhoi amodau ar faterion sy'n gysylltiedig â deunyddiau a gorffenwaith allanol er mwyn sicrhau y byddai'r edrychiad yn dderbyniol o ran polisïau C26, B22, B23, a B25.

5.16 Ystyrir y gallai'r elfennau ategol hyn fod yn dderbyniol a bod cyfiawnhad rhesymol amdanynt (gydag amodau priodol) o ran polisïau B22, B23, B25 a maen prawf 2 polisi C26 os yw lleoliad y ddau dyrbin gwynt, fel arall, yn dderbyniol.

**Bioamrywiaeth**

5.17 Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi asesu effeithiau amgylcheddol posib y datblygiad trwy nifer o arolygon. Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi asesu'n benodol ecoleg nad yw'n hedfan, cadwraeth natur ac adareg. Mae pwyntiau meini prawf 3 a 4 polisi C26 yn berthnasol i'r agwedd hon o'r cais. At hyn, mae polisïau B15, B16, B17, B20 a B20 hefyd yn berthnasol yn ogystal â'r arweiniad sydd yng Nghyfarwyddyd Atodol Cynllunio Safleoedd Bywyd Gwyllt.

5.18 Daeth nifer o wrthwynebiadau i law ynghylch effaith y datblygiad ar blanhigion, anifeiliaid, pryfaid, peillyddion, adar, ystlumod a bywyd gwyllt arall ac nad yw'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer yr arolygon yr hyn a ddisgwylid ar gyfer astudiaeth wyddonol. At hyn, mynegodd y sylwadau bryder y byddai'r datblygiad yn niweidiol i fawn.

5.19 Mewn ymateb i'r broses ymgynghori, ni wrthwynebodd Uned Bioamrywiaeth y Cyngor y cynllun ar yr amod y câi amodau eu cynnwys yng nghyswllt cyflwyno cynllun rheoli i wella cynefin a chynefinoedd bridio i adar. Fel yr awgrymwyd yn y Strategaeth Amlinellol ar Reoli Cynefinoedd ac a argymhellwyd gan yr uned Bioamrywiaeth, dylid cynnwys cynllun monitro yn y cynllun rheoli. Mae'r sylwadau'n cydnabod bod y datblygiadau'n osgoi'r mannau gwlyb a chorsiog a hefyd fannau â mawn. At hyn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n fodlon gyda chanfyddiadau'r arolwg o fawn a gynhaliwyd. Dylid cyflwyno manylion gwaith rheoli dŵr wyneb o'r traciau. Fodd bynnag, byddai modd gosod amodau yn hyn o beth os rhoddir caniatâd a byddai'n sicrhau y byddai'r bwriad yn unol â pholisïau C26 ac C29.

5.20 Gwrthwynebodd Cyfoeth Naturiol Cymru'n wreiddiol i'r cais oni byddai modd cyflwyno gwybodaeth ychwanegol oedd yn dangos na fyddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar statws cadwraeth ffafriol ystlumod. Wedi i wybodaeth ychwanegol gael ei chyflwyno nid oedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru wrthwynebiad mwyach i'r bwriad ar yr amod y câi amodau eu cynnwys gydag unrhyw ganiatâd a roddir sy'n ei gwneud yn amodol cyflwyno cynllun lliniaru llai a gweithredu arno. Gydag amodau nid ystyrir y byddai'r bwriad yn groes i bolisi B20.

5.21 Mae safle'r cais o fewn ychydig gilometrau i bum safle a warchodir dan gyfraith Ewrop:

Mignaint, Arennig, Dduallt (Ardal Gadwraeth Arbennig)
Mignaint Arennig Dduallt (Ardal Warchodedig Arbennig)
Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd (Ardal Gadwraeth Arbennig)
Berwyn (Ardal Warchodedig Arbennig)
Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid (Ardal Gadwraeth Arbennig)

5.22 Mae Polisi B15 y Cynllun Datblygu Unedol yn gwarchod safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur rhyngwladol ac yn datgan y dylai bwriadau sy'n debygol o achosi niwed uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r safleoedd gael eu gwrthod. Mae'r datblygwr wedi ysgrifennu dogfen ar gyfer cynnal Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd sy'n asesu'r effaith bosib ar safleoedd Ewropeaidd. Cadarnhaodd yr Uned Bioamrywiaeth (fel yr Awdurdod Cymwys) eu bod yn cytuno gyda chanfyddiadau'r Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd sy'n dod i'r casgliad na fydd effaith negyddol ar unrhyw safle Ewropeaidd cyfagos yn rhinwedd y ffaith bod y datblygiad yn cael ei adeiladu a'i weithredu. Cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru â'r canfyddiadau hyn hefyd. O'r herwydd, nid ystyrir bod y bwriad yn groes i bolisïau C26 na B15.

5.23 Mae Polisi B16 yn rhoi gwarchodaeth debyg i'r hyn y mae B15 yn ei rhoi i Safleoedd o Bwysigrwydd Cenedlaethol (Safleoedd o Bwysigrwydd Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol). Daw'r Datganiad Amgylcheddol i'r canlyniad mai prin iawn fyddai effeithiau'r datblygiad ac na fyddent yn sylweddol ac ni chodwyd pryderon gan Gyfoeth Naturiol Cymru na chan Uned Bioamrywiaeth Cyngor. O'r herwydd, nid ystyrir y byddai'r datblygiad yn groes i bolisi B16.

5.24 Er gwaethaf y gwrthwynebiadau a ddaeth i law yng nghyswllt y cais, daw'r Datganiad Amgylcheddol i'r casgliad nad yw effeithiau sylweddol yn cael eu darogan yng nghyswllt y datblygiad. Mae ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Uned Bioamrywiaeth yn dod i'r casgliad bod modd rheoli effeithiau'r datblygiad yn foddhaol os gwneir y gwaith datblygu'n unol ag argymhellion y Datganiad Amgylcheddol a thrwy gynnwys amodau cynllunio perthnasol. O'r herwydd, ystyrir bod y cais yn cwrdd â gofyniad polisïau C26, C29, B15, B16, B17, B20 a Chanllawiau Cynllunio Atodol y Safleoedd Bywyd Gwyllt.

**Mwynderau Preswyl a Chyffredinol**

5.25 Mae Polisi B23 yn datgan y caiff bwriadau a fyddai'n achosi niwed sylweddol i fwynderau'r gymdogaeth leol eu gwrthod. At hyn, mae Polisi B33 yn datgan y caiff bwriadau fydd yn achosi niwed sylweddol i ansawdd iechyd, diogelwch neu fwynderau'r cyhoedd neu i ansawdd yr

amgylchedd adeiledig neu naturiol eu gwrthod oni bod modd rhoi rheolau digonol yn eu lle trwy amodau cynllunio neu reolau eraill.

5.26 Roedd nifer fawr o'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r cais yn mynegi pryder ynghylch sŵn, effeithiau sŵn cronnol gyda'r tyrbinau yn 'Braich Ddu' ac effeithiau cysgodion symudol y tyrbinau arfaethedig. At hyn, mae'r sylwadau'n cwestiynu methodoleg a phriodoldeb defnyddio ETSU-R-97 fel modd o asesu effeithiau sŵn.

5.27 Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi cynnal astudiaeth fanwl i asesu a fydd hi'n debygol y ceir cysgodion symudol yn eiddo preswylwyr yn ardal y tyrbinau. Daw'r astudiaeth i'r casgliad bod posib cael rhyw gymaint o gysgodion symudol mewn 13 eiddo petai pethau'n mynd i'r pen. O gofio bod uchder y tyrbinau wedi'u gostwng, mae Cyfrol 1 y Cyflwyniad Cynllunio sydd wedi'i Ddiweddaru yn datgan fod nifer yr eiddo y gallai'r tyrbinau gael effaith arnynt wedi gostwng i 10. Mae camau lliniaru'n parhau i fod wedi'u hargymell a byddai hyn yn golygu system cau'r tyrbin i lawr i sicrhau nad yw'r tyrbinau'n weithredol ar yr adegau y byddai'n debygol y ceir cysgodion symudol. Cytunodd Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor â chanfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol ac y gellid rheoli effeithiau'r tyrbinau trwy amodau cynllunio i sicrhau fod yr effaith ar eiddo sensitif yn dderbyniol.

5.28 Cynhaliwyd yr asesiad sŵn yn unol ag ETSU-R-97 ar gyfer y cyfnod yn ystod y dydd ond hefyd gyda chyfyngiad sŵn is ar gyfer y nos yn unol â chais Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor. Er gwaethaf gwrthwynebiad i ddefnyddio ETSU-R-97 fel modd o asesu effeithiau sŵn posib, caiff ei ddefnydd ei gydnabod yn NCT 8 ac mae'n ei ystyried yn arweiniad perthnasol ar arfer dda.

5.29 Cadwodd yr asesiad sŵn hefyd yr effeithiau sŵn cronnol gyda'r tyrbinau presennol yn 'Braich Ddu' mewn cof a dod i'r casgliad y gallai'r ddwy fferm wynt weithredu'r un pryd heb greu effaith sŵn sylweddol yn y derbynyddion agosaf. Daeth y Datganiad Amgylcheddol i'r casgliad na ragwelir effeithiau sylweddol yn sgil sŵn. Mewn ymateb i'r broses ymgynghori datganodd Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor y caiff y dull a fabwysiadwyd a chynnwys yr asesiad sŵn eu derbyn ac nad oes gwrthwynebiad i'r cynllun ar yr amod y caiff amodau addas eu cynnwys gydag unrhyw ganiatâd a roddir.

5.30 Mae'r Datganiad Amgylcheddol hefyd wedi astudio'r effaith bosib ar fwynderau preswyl a gweledol. Mae'r astudiaeth yn cydnabod fod 26 o anheddau preswyl o fewn 1.5 cilometr i'r safle. Mae nifer o wrthwynebiadau wedi dod i law ynghylch y cais yn pryderu ynghylch mwynder preswyl. At hyn, mynegwyd pryder ynghylch effaith llygredd golau yn ystod y nos oherwydd y goleuadau rhybuddio am awyrennau y gofynnodd y Weinyddiaeth Amddiffyn amdanynt. Bu i'r asesiad o fwynderau preswyl a gweledol a gynhaliwyd asesu pob un o'r eiddo a beth fyddai'r effaith debygol. Cafodd hyn ei gefnogi gan ddiagram tri dimensiwn. Cafwyd y ceid effeithiau sylweddol ar 14 o'r eiddo a aseswyd. Yn fras, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn derbyn y canfyddiadau o gofio'r pellter gwahanu, y cyfeiriad y mae'r anheddau'n ei wynebu, tirffurf a llystyfiant naturiol. Ystyrir y bydd y tyrbinau'n hawlio'r ardal wrth edrych arnynt o eiddo ym Methel ond ystyrir bod y pellter gwahanu'n ddigon i sicrhau nad yw'r effaith mor andwyol fel y byddai'n cyfiawnhau gwrthod y cais am y rheswm hwn.

5.31 Fod bynnag, mynegir pryder na wnaeth yr astudiaeth gynnwys yr eiddo a adwaenir fel 'Cistfaen' a 'Cae Iago', eiddo sydd i'r de o'r safle ac sydd o fewn 500m i 800m i'r safle. Fodd bynnag, mae pwynt 4 y Datganiad Amgylcheddol yn rhoi rhyw arwydd o'r effaith ar 'Cistfaen' gan fod rhai o'r adeiladau allanol i'w gweld yn fig.2.4b. At hyn, nid yw'r effaith gronnol gyda'r tyrbinau, ar y cyd gyda'r rhai sydd newydd eu gosod yn 'Syrior', wedi'u hasesu o ran yr effaith ar fwynder preswyl. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn datgan y byddai'r tyrbinau presennol a'r rhai sydd wedi cael caniatâd yn ddigon pell o safle Bodelith fel mai ychydig iawn o ddylanwad y câi eu presenoldeb cronnol ar gymeriad y tirlun neu olygfeydd ohono. Wrth deithio i fyny'r briffordd ddi-ddosbarth i 'Cistfaen' mae modd gweld llafnau'r tyrbin yn Syrior o nifer o leoliadau. Mae gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol bryder sylweddol yng nghyswllt effaith y tyrbinau arfaethedig ar 'Cistfaen', 'Cae Iago' a 'Hafoty Wen' a'r posibilrwydd o deimlo fel pe bai rhywun wedi'i amgylchynu gan dyrbinau. Gallai'r effaith gronnol hefyd gael effaith ar anheddau eraill sydd ar ochr ddeheuol y

safle. Heb ddigon o wybodaeth i asesu'r effaith bosib, ystyrir bod y bwriad yn groes i bolisïau B23 ac C26.

5.32 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais a'r sylwadau a dderbyniwyd gan yr Uned Gwarchod y Cyhoedd, ystyrir bod modd rheoli effeithiau'r sŵn a'r cysgodion symudol yn foddhaol os byddir yn bwrw ymlaen gyda'r datblygiad yn unol ag argymhellion y Datganiad Amgylcheddol a thrwy gynnwys amodau cynllunio perthnasol. Er gwaethaf y gwrthwynebiadau a ddaeth i law, ystyrir bod yr agwedd hon o'r cais yn bodloni gofynion polisïau C26, B23 a B33. Er gwaethaf hynny, oherwydd nad oes digon o wybodaeth yn benodol am yr eiddo a adwaenir fel 'Cistfaen' a 'Cae Iago' yng nghyswllt yr effaith ar fwynderau preswyl o ran effeithiau gweledol, ystyrir bod y cais yn groes i bolisïau C26 and B23.

**Priffyrdd a Thrafnidiaeth**

5.33 Mae Polisi CH33 yn berthnasol i'r agwedd hon o'r cais sy'n ymwneud â diogelwch ar ffyrdd a strydoedd. Mae modd cael at safle'r cais oddi ar y B4402 sydd union oddi ar yr A494. Mae'r bwriad yn cynnwys creu mynedfa newydd i gerbydau i'r gorllewin o 'Llys Garneddog' a chreu traciau mynediad ar dir amaethyddol. Mae'r cyfnod adeiladu ar gyfer y datblygiad oddeutu naw mis ac mae'r Datblygiad Amgylcheddol wedi asesu nifer a mathau tebygol symudiadau cerbydau i'r safle ac oddi yno. Rhagwelir y bydd yr effaith traffig fwyaf sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu yn digwydd yn chwe mis rhaglen y cyfnod adeiladu. Ddau ddiwrnod yn y mis hwn rhagwelir y bydd 64 o deithiau dwy ffordd gan gerbydau trwm ar bob un o'r dyddiau hyn (32 cerbyd i mewn i'r safle a 32 oddi yno). Caiff hyn ei seilio ar y sefyllfa waethaf.

5.34 Mynegwyd pryder ynghylch diogelwch ar y briffordd ac yn y gyffordd oddi ar y B4402 i'r A494. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi mai lorïau sy'n gadael y safle ac sy'n troi i'r dde ar yr A494 allai fod y perygl mwyaf gan y byddant yn dod i wyneb cerbydau sy'n teithio i'r gogledd-ddwyrain ar yr A494. Mae camau lliniaru wedi'u hargymell ac mae cynllun rheoli traffig wedi'i gyflwyno hefyd. Mewn ymateb, nid oedd gan yr Uned Drafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad ar yr amod y byddid yn bwrw ymlaen gyda'r datblygiad yn unol â'r camau lliniaru a amlinellir yn y Datganiad Amgylcheddol ac wrth gynnwys amodau. At hyn, mae'r Datganiad Amgylcheddol yn argymell cynnwys amod yn cyfyngu gweithgarwch adeiladu a symudiadau i'r safle ac oddi yno i oriau gwaith rhesymol er lles diogelwch ar y ffordd ac i ostwng niwsans.

5.35 Er gwaethaf y gwrthwynebiadau a ddaeth i law, ystyrir bod modd rheoli effaith y bwriad yn foddhaol er mwyn sicrhau diogelwch ar y briffordd os byddir yn bwrw ymlaen gyda'r datblygiad yn unol â'r Datblygiad Amgylcheddol a chydag amodau cynllunio. O'r herwydd, ystyrir bod yr agwedd hon o'r cais yn unol â pholisi CH33.

5.36 Argymhellodd yr Uned Trafnidiaeth fod yr Awdurdod yn ymgynghori gydag Awdurdod Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru. Hyd yn hyn, nid oes ymateb wedi dod i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad felly, os bydd y pwyllgor cynllunio'n penderfynu cymeradwyo'r cais, byddai'n rhaid i'r penderfyniad ddirprwyo'r pwerau i'r rheolwr cynllunio iddo ef gymeradwyo'r cais ar yr amod y ceir ymateb boddhaol gan Lywodraeth Cymru.

**Amgylchedd Hanesyddol**

5.37 I'r de-ddwyrain o'r safle, oddeutu 5 cilometr i ffwrdd mae Tirlun Hanesyddol Cofrestredig y Berwyn ac i'r de-orllewin oddeutu 4 cilometr i fwrdd mae tirlun Hanesyddol Cofrestredig y Bala a Llyn Tegid. Fel y nodir yn fanwl yn y Datganiad Amgylcheddol ac yn ymateb CADW a Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd, ceir nifer o Henebion Cofrestredig wrth ymyl y safle a'r agosaf yw Clostir Mynydd Mynyllod (ME090) sydd oddeutu 650m o safle'r cais i'r gogledd-ddwyrain. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn nodi bod pump o fewn radiws 5 cilometr i'r safle. Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi asesu bod 116 o Adeiladau Rhestredig o fewn yr ardal astudio 5 cilometr ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn Llandderfel a Llandrillo. Mae'r adeilad rhestredig agosaf ym Methel lle mae'r hen gapel yn adeilad rhestredig Graddfa II. O'r herwydd, mae polisïau B3, B7, B12, yn berthnasol i'r agwedd hon o'r cais. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn adlewyrchu'r polisïau gan ddatgan:

*6.1.1 Mae'n bwysig diogelu'r amgylchedd hanesyddol1 2 3 4 – sy'n cynnwys archaeoleg a henebion5, adeiladau rhestredig6, ardaloedd cadwraeth a pharciau, gerddi a thirweddau hanesyddol. Amcanion Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yw:*

*• cadw neu wella'r amgylchedd hanesyddol, gan gydnabod ei gyfraniad at fywiogrwydd economaidd a diwylliant, balchder dinesig ac ansawdd bywyd, a'i bwysigrwydd fel adnodd ar gyfer y cenedlaethau a ddêl, ac yn benodol;*

*• diogelu gweddillion archeolegol, sy'n adnodd y mae terfyn iddo ac na ellir ei adnewyddu, sy'n rhan o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Cymru ac sy'n werthfawr ynddo'i hun yn ogystal ag am ei rôl ym myd addysg, hamdden a'r economi, yn enwedig twristiaeth;*

*6.5.1 Mae priodoldeb cadw* ***heneb*** *a'i lleoliad yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio, pa un a yw'r heneb honno'n un gofrestredig ai peidio. Pan fo datblygiad arfaethedig yn effeithio ar* ***weddillion archeolegol****, o bwys cenedlaethol, boed y rheini'n gofrestredig ai peidio, a'u lleoliadau, dylid cael rhagdybiaeth o blaid eu cadw'n ffisegol lle y maent.*

5.38 Mae Polisi B3 yn ceisio gwarchod lleoliad adeiladau rhestredig. Mae'n datgan y dylid gwrthod bwriadau sy'n achosi niwed sylweddol i olygfeydd pwysig adeiladau rhestredig ac o'r adeiladau eu hunain. Mae'r Polisi'n datgan hefyd fod ychwanegu elfennau sy'n tarfu'n annerbyniol. Mae Adran 66(1) y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) yn datgan y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi ystyriaeth arbennig i ba mor ddymunol yw cadw/diogelu lleoliad adeilad rhestredig. Fel y trafodwyd uchod, mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi nodi nifer fawr o adeiladau rhestredig a'r agosaf yw Capel Bethel. Ac eithrio'r Capel ym Methel, oherwydd eu lleoliad, y cyfeiriad y maent yn ei wynebu, presenoldeb nodweddion ar y tirlun a rhesymau dros restru, nid ystyrir y byddai'r bwriad yn andwyol i'w lleoliad.

5.39 Mae'r Capel ym Methel ar isffordd union oddi ar yr A494, wedi'i osod fymryn yn ôl o'r briffordd gan flaen-gwrt bychan gyda rheiliau a giât haearn bwrw. Mae'r capel wedi'i restru fel capel o flynyddoedd hwyrach y bedwaredd ganrif ar bymtheg (er bod ei wreiddiau'n gynharach), mae'n uchelgeisiol yn ôl graddfa a chyfoethogrwydd i gyd-destun gwledig, gan ddefnyddio arddull y dadeni y mae iddi fanylion cyson ac arbennig o gynnil. Mae blaen y capel yn wynebu safle'r cais yn uniongyrchol. Er bod modd gweld traffig yn symud ar yr A494, y golygfeydd sydd i'w gweld o'r capel, sydd wedi'i godi fymryn uwchlaw'r A494, yw tirlun amaethyddol sydd heb ei ddifethaf fawr ddim. Mae haen Tirlun Hanesyddol Landmap yn adnabod lleoliad y capel fel un sydd mewn tirlun o werth hanesyddol uchel sydd o werth sirol fel tirlun amlwg o gaeau afreolaidd, anheddiad gwasgaredig a choedwig nad yw wedi newid fawr ddim ers dros ganrif.

5.40 Er gwaethaf y canfyddiadau yn y Datganiad Amgylcheddol, nid ystyrir bod y newid defnydd a ganiatawyd iddo, o fod yn gapel i ddefnydd arall, yn peri iddo fod yn llai sensitif i newidiadau i'w leoliad. Mae'r caniatâd a roddwyd yn ymwneud â'r gwaith altro allanol bychan iawn a gwaith trwsio a chynnal a chadw a diogelu'r adeilad rhestredig yw'r rhan fwyaf o'r gwaith. Bydd yr edrychiad allanol gorffenedig yn parhau'n gapel. At hyn, nid ystyrir fod montage lluniau 2 (ffigwr 7.27-7.28) yn rhoi gwir argraff o faint yr effaith ar leoliad y Capel. Mae'r asesiad yn nhabl 8.8 yn datgan y bydd y tyrbinau'n golygu newid mawr yn yr olygfa (fel y gwelir ym mhwynt 2) ond, er gwaethaf eu hagosatrwydd maent ar gyrion golygfeydd presennol o'r capel. Daw'r asesiad i'r casgliad mai bychan fyddai maint y newid a'r effaith a'r arwyddocâd yn fychan/cymedrol ac yn ansylweddol.

5.41 Nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno'n llwyr â'r canfyddiadau hyn. Fel arfer, byddai caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu tyrbinau gwynt yn cael ei roi am 25 mlynedd ac, o'r herwydd, byddai'r effaith yn para'n hir, er y caiff ei dderbyn y byddai'n hawdd troi'r effeithiau o chwith. Mae ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn nodi bod yr effeithiau gweledol ar y clwstwr o anheddau ym mhentref bach Bethel yn gynnil. Er gwaethaf y cynllun llai, byddai tyrbin rhif 1 yn nodwedd amlwg wrth edrych arno o'r capel rhestredig a byddai'n ychwanegu at elfennau gwneud y peilonau trydan, y tyrbinau sydd yn 'Braich Ddu' a'r A494 sy'n tynnu oddi ar

gymeriad gwledig braf y tirlun. Er gwaethaf hyn, nid yw'r elfennau gwneud ynddynt eu hunain yn cyfiawnhau cyflwyno elfennau sydd wedi'u moderneiddio i'r tirlun. At hyn, ni fyddai effaith y tyrbinau'n cael ei lleddfu'n sylweddol wrth fod yn agos at adeiladau sydd eisoes yno neu strwythurau graddfa fawr eraill ac, yn sgil hyn, ystyrir y byddai'r bwriad arfaethedig yn niweidiol i gymeriad ac edrychiad gwledig yr ardal.

5.42 Mae cymeriad ac edrychiad gwledig yr ardal yn rhan annatod o leoliad yr adeilad rhestredig. Mae'r caeau, patrwm y datblygiad gwasgaredig a'r adeilad rhestredig i gyd yn dystiolaeth o weithgarwch gorffennol dyn yn yr ardal yn y gymuned tir uchel hon ac, yn hyn o beth, mae cyswllt agos rhyngddynt. O' r herwydd, mae lleoliad gwledig yr adeilad rhestredig yn rhan arwyddocaol o'i werth tystiolaethol a hanesyddol. Ystyrir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn andwyol i gymeriad gwledig yr ardal. O'r herwydd, byddai'n niweidiol iawn i leoliad yr adeilad rhestredig ac yn tynnu oddi wrth ei gymeriad hanesyddol cyffredinol ac ymdeimlad o le. Yn hyn o beth, byddai'n mynd yn erbyn y gofyn statudol i roi ystyriaeth arbennig i ba mor ddibynnol fyddai cadw lleoliad yr adeiladau rhestredig ac yn erbyn polisi B3 y Cynllun Datblygu Unedol, sy'n rhoi rhagor o rym i'r gofyn statudol yn y cynllun datblygu. Yn wyneb yr ystyriaeth arbennig sydd i'w rhoi i'r cyfryw faterion, ystyrir y dylid gwrthod y cais gan ei fod yn groes i ofynion Polisi B3, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru ac Adran 66(1) y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth).

5.43 Mae polisi B7 yn glir yn ei gyngor gan ddatgan y bydd bwriadau sy'n difrodi neu'n dinistrio gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (p'run a ydynt yn gofrestredig ai peidio) neu eu lleoliad yn cael eu gwrthod. Mae pwynt 7 polisi C26 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol na fydd y datblygiad yn peri niwed sylweddol i fannau o bwysigrwydd archeolegol, yn enwedig felly mewn mannau dynodedig neu gerllaw iddynt. Mae paragraff 6.5.1 Polisi Cynllunio Cymru'n adlewyrchu'r cydbwysedd y mae NCT 8 yn ei nodi rhwng yr angen i ddarparu ynni adnewyddadwy a gwarchod y tirlun.

5.44 Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd a CADW ill dau wedi gwrthwynebu'r cais er gwaethaf y ffaith fod cynllun diwygiedig wedi'i gyflwyno a ostyngodd uchder y tyrbinau. Mae'r ddau gorff o'r farn y bydd y datblygiad yn cael effaith andwyol sylweddol ar leoliad Clostir Mynydd Mynyllod, Gwersyll Caer Euni, Chylchoedd Cerrig Caer Euni a Charnedd Gron Cern Caer Euni, sydd i gyd yn Henebion Cofrestredig ac, o'r herwydd, o bwys rhyngwladol. Mynegodd gwrthwynebiadau gan drydydd partïon hefyd bryderon ynghylch lleoliad gweddillion archeolegol ac y byddai'r tyrbinau'n difethaf profiad ymwelwyr.

5.45 Mae'r pryderon yn ymwneud â'r effaith ar Glostir Mynydd Mynyllod sydd oddeutu 650m o safle'r cais a'r berthynas weledol â'r henebion cofrestredig ar Gefn Cae'r Euni. Safle anheddiad cynhanesyddol yw Mynydd Mynyllod sy'n cael ei amddiffyn gan glawdd cerrig a cherrig brig naturiol, rhywbeth prin yn yr ardal. Mae ar ben bryn a gellir ystyried ei fod yno'n fwriadol er mwyn cymryd mantais o'r safle hwn. Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd a CADW o'r farn y bydd y tyrbinau arfaethedig yn hawlio ei leoliad a'i olygfeydd i'r safle ac oddi yno. Mae'r ddau hefyd yn mynegi pryder y bydd y bwriad hwn yn cynyddu'r ymdeimlad o gau i mewn y mae'r tyrbinau yn 'Braich Ddu' eisoes wedi'i greu trwy gyflwyno mwy o strwythurau gwneud sy'n weledol amlwg ac yn symud yn fertigol i dirlun sy'n nodedig am ystod a nifer yr henebion cynhanesyddol creiriol amlwg a byddent yn tanseilio gwerthfawrogiad a ddangosir i'r heneb fel un sydd mewn safle sy'n rheoli.

5.46 Mewn ymateb i'r cynllun cyntaf gwrthwynebodd Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd hefyd i'r effeithiau posib ar weddillion anhysbys a allai fod yn bresennol lle byddai'r traciau mynediad a'r llecynnau caled arfaethedig yn cael eu creu. Pe câi caniatâd ei roi byddai rhaglen o liniaru wedi'i threfnu, yn cynnwys arolygu, cofnodi a chloddio, yn briodol ond ni fyddai mwyach yn gallu cynnwys y dewis o liniaru trwy osgoi pe adnabyddid archeoleg sylweddol dan y wyneb. Mewn ymateb, cyflwynodd asiant yr ymgeisydd sylwadau yn ymateb i'r rhai hynny a godwyd gan CADW a Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd. Roedd y sylwadau'n datgan y

gellid, yn wir, gadw unrhyw weddillion pwysig lle meant, a hynny drwy ddylunio datblygu neu feicroleoli. Mewn ymateb i'r cynllun diwygiedig, cadarnhaodd Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd eu bod yn parhau â'r un pryderon ac, fel y cyfryw, nid oedd yr effeithiau ar weddillion anhysbys wedi'u goresgyn ddigon. O gofio cyfyngiadau'r safle (e.e. lefelau, effaith weledol y traciau mynediad, lleoliad y dyddodion mawn), nid oes modd asesu'n llawn pa mor ddefnyddiol yw'r datblygiad na'r camau lliniaru arfaethedig heb ragor o wybodaeth.

5.47 Ystyrir bod y bwriad yn groes i ofynion polisi B7 gan y bydd effaith y tyrbinau'n annerbyniol ar leoliad Henebion Cofrestredig yn yr ardal ac nid yw, ychwaith, yn glir a gaiff y datblygiad effaith annerbyniol ar ddyddodion archeolegol nad ydynt wedi'u hadnabod, ar eu harwyddocâd ac a ellid cymryd camau lliniaru ai peidio. O'r herwydd, mae'r cais hefyd yn groes i bwynt 7 polisi C26 a gofynion Polisi Cynllunio Cymru gan nad yw'r cynllun yn cadw nac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol.

**Tirlun**

5.48 Nid yw safle'r cais mewn tirluniau dynodedig. Er gwaethaf hynny, o gofio natur ac amlygrwydd y datblygiad bydd i'w weld o dirluniau gwarchodedig. Byddai'r safle o fewn 4.5 cilometr i Barc Cenedlaethol Eryri i'r de a thros 8 cilometr i ffwrdd i'r gorllewin. Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy oddeutu 7 cilometr i'r gogledd-ddwyrain. I dde-ddwyrain y safle, oddeutu 5 cilometr i ffwrdd mae Tirlun Hanesyddol Cofrestredig y Berwyn ac i'r de-orllewin 4 cilometr i ffwrdd, mae Tirlun Hanesyddol cofrestredig y Bala a Llyn Tegid.

5.49 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys amryfal asesiadau ac arfarniadau sy'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd o Landmap. O ran agweddau gweledol a synhwyrol, daw asesiad Landmap i'r casgliad fod gwerth cymedrol i'r ardal. Mae'r tirlun hanesyddol hefyd wedi'i asesu yn gymedrol ei werth; fodd bynnag, mae'r gwerth a roddir ar yr ardal o'i gwmpas wedi'i nodi fel un â gwerth uchel ar y tirlun hanesyddol. Mae astudiaeth fwy diweddar i Sensitifrwydd a Chapasiti Tirlun wedi'i chynnal gan Gillespies. Daw canfyddiadau hon i'r casgliad bod y sensitifrwydd cyffredinol i ddatblygiadau tyrbinau gwynt yn ganolig uchel ac nad oes yn nodweddiadol ddim capasiti ar gyfer rhagor o ddatblygiadau ynni gwynt, ac eithrio yn anfynych iawn ar raddfa ddomestig, datblygiad a ddylai ffitio i mewn yn dda i aneddiadau/adeiladau sydd eisoes yno. Mae'r asesiad yn cydnabod bod y sensitifrwydd i ddatblygiadau ynni gwynt yn is oherwydd y tirlun graddfa ganolog, bryniog a phantiog sydd, mewn mannau, yn cael ei ddylanwadu gan ddatblygiadau modern sy'n bennaf i'r de-ddwyrain o'r ardal astudio. Fodd bynnag, mae'n datgan fod y sensitifrwydd is yn cael ei wrthbwyso gan gysylltiad cryf yr ardal â Pharc Cenedlaethol Eryri.

5.50 Darparodd asiant yr ymgeisydd nodyn technegol mewn ymateb i ganfyddiadau adroddiad Gillespies. Maent yn anghytuno â'r casgliadau cyffredinol ynghylch capasiti'r ardal i wneud lle i dyrbinau gwynt gan na fyddai safle'r cais yn cydymffurfio â chyfran o'r meini prawf ac nad oes modd ei ddefnyddio yn lle Asesiad o'r Effaith ar y Tirlun a'r Olygfa. Derbynnir nad yw asesiad Gillespies yn benodol ar gyfer y safle ac mai ychydig o bwysau y mae modd ei roi wrtho wrth benderfynu ar y cais. Mae, fodd bynnag, yn dangos fod yr ardal hon, i bob pwrpas yn glustog rhwng tirluniau gwarchodedig, megis Parc Cenedlaethol Eryri ac ardaloedd eraill lle ceir mwy o ddatblygiadau modern (gan gynnwys tyrbinau gwynt) i dde-ddwyrain y safle. O'r herwydd, rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i ba mor dderbyniol fyddai tyrbinau gwynt mawr yn yr ardal hon.

5.51 Er gwaethaf gwrthwynebiad Parc Cenedlaethol Eryri, Cyd-bwyllgor AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ni wrthwynebodd Cyfoeth Naturiol Cymru'r bwriad o ran ei effeithiau ehangach a chytunodd gyda chasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Tirlun a'r Olygfa gan ddatgan, 'er y byddai'r tyrbinau i'w gweld o nifer o leoliadau....byddai'r tyrbinau'n nodwedd gefndirol fechan, yn amlwg y tu allan i'r ffiniau dynodedig ac mewn tirlun o gymeriad ar wahân'. O'r safbwynt hwn, nid ystyrir y byddai'r cais yn cael effaith andwyol ar leoliad Parc Cenedlaethol

Eryri, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy nac ar y tirluniau hanesyddol cofrestredig ac, fel y cyfryw, ni fyddai'n groes i bolisïau B12, B14 neu C26.

5.52 Er hynny, mynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru bryder ynghylch canfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol o ran yr effaith leol ar y tirlun ym Methel, yr A494 ac yn Nyffryn Glan-yr-Afon y maent yn ystyried nad oes digon o gynrychiolaeth iddynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Tirlun a'r Olygfa. Byddai modd gweld y tyrbinau gwynt arfaethedig a'r tyrbinau gwynt sydd eisoes yn gweithredu yn 'Braich Ddu' yn eithaf aml o'r A494, gan gryfhau presenoldeb tyrbinau gwynt yn Nyffryn Glan-yr-Afon a byddent yn cael effaith sylweddol ar dirluniau lleol a chanfyddiadau cymunedau ac ymwelwyr sy'n pasio trwy'r ardal. Mae hyn yn bryder a godwyd gan nifer o'r gwrthwynebwyr i'r cynllun, gan gyfeirio at yr ardal fel 'y porth i Gymru.

5.53 Er gwaethaf y casgliadau ynghylch mwy o olygfeydd o bell, byddai'r tyrbin yn ymddangos fel strwythur tal a modern a fyddai'n amlwg yn glir o'r tirlun lleol oherwydd ei faint a'i leoliad ar dir uwch. Er bod tirlun yr ardal wedi newid, mae Cyfrol 1 Cyflwyniad Cynllunio sydd wedi'i Ddiweddaru'n parhau i gydnabod y byddai'r bwriad yn arwain at newid mawr ym Methel. Byddai edrychiad modern a llafnau symudol y tyrbinau mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r ardal wledig o'u cwmpas ac, oherwydd eu lleoliad cymharol uchel, byddent yn ymddangos fel petaent yn nodwedd sy'n hawlio ac yn tarfu ac, ar wahân i'r tyrbinau sydd eisoes yn 'Braich Ddu', ni fyddent o'r un raddfa â'r llystyfiant yno nac ag elfennau fertigol eraill yn y tirlun.

5.54 Byddai'r rhai fyddai'n gweld y golygfeydd hefyd yn dderbynyddion sensitif iawn gan eu bod yn breswylwyr, yn defnyddio'r hawliau tramwy i hamddena neu'n defnyddio'r rhwydwaith briffyrdd lleol a byddai cael strwythur fertigol sy'n symud ac o'r maint a fwriedir yn nodwedd ddieithr a fyddai'n cael effaith sylweddol ar fwynder gweledol.

5.55 Fel y tystir gan y wybodaeth a gyflwynwyd ac o asesu'r ardal, byddai'r tyrbinau gwynt i'w gweld hefyd ar y cyd â thyrbinau yn 'Braich Ddu' a 'Syrior' o rai mannau penodol. Ystyrir y byddai'r tyrbinau'n nodweddion amlwg a diffiniol yn y tirlun lleol oherwydd eu bod yn gymharol agos at ei gilydd, eu bod ar wahân i unrhyw adeiladau neu i elfennau fertigol sylweddol yn y tirlun, ac y byddent yn newid ei gymeriad yn sylfaenol. Nid yw presenoldeb y tyrbinau sydd eisoes yno'n cyfiawnhau nac yn lliniaru effeithiau'r bwriad hwn. O ganlyniad i hyn, ystyrir fod y datblygiad hwn yn adlewyrchu ehangder cynyddol o dyrbinau gwynt yn yr ardal sy'n groes i'r arweiniad yn NCT 8 sy'n cyfeirio at amcan ymhlyg y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol i gynnal cymeriad y tirlun (h.y. dim newid sylweddol i gymeriad tirlun yn sgil tyrbinau gwynt).

5.56 I gloi, byddai'r bwriad ar ei ben ei hun ac ar y cyd gyda'r tyrbinau sydd eisoes yn agos i'r safle yn niweidiol i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol ac yn cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol. Ni fyddai'r bwriad yn unol â pholisïau B23 ac C26 y Cynllun Datblygu Unedig a fabwysiadwyd, y Canllawiau Cynllunio Atodol nac â'r arweiniad yn NCT 8.

## 6. Casgliadau:

6.1 Dylid cydnabod y byddai'r bwriad yn cyfrannu at darged y Deyrnas Gyfunol o gael 15% o ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020 a nod Llywodraeth Cymru o gael gosod 4.5KWh/d/p o gapasiti gwynt ar y tir erbyn 2015/2017. Mae gan y system gynllunio rôl mewn cyflawni'r targed uchod, fodd bynnag, mae NCT 8 yn cydnabod mai'r amcan ymhlyg y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol yw cynnal cymeriad y tirlun (h.y. dim newid sylweddol i gymeriad tirlun yn sgil tyrbinau gwynt).

6.2 O'r herwydd, mae angen cydbwysedd rhwng manteision creu trydan o wynt ar y tir adnewyddadwy a'r effeithiau a nodwyd ar gymeriad ac edrychiad y tirlun, lleoliadau henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig, yn ogystal â'r gwrthdrawiad â'r cynllun datblygu statudol a'r effaith bosib ar fwynderau cyffredinol a mwynhad o'r ardal.

6.3 Ystyrir bod yr effeithiau a nodwyd yn gwrthdaro â pholisi ac mae'r effeithiau posib yn dangos nad yw'r rhan hon o'r tirlun yn amgylcheddol addas ar gyfer datblygu rhagor o dyrbinau gwynt. At hyn, ceir pryder ynghylch effaith y bwriad ar fwynderau preswyl yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd. Yn seiliedig ar yr asesiad uchod, ystyrir bod y cydbwysedd ar ochr cadw'r amgylchedd hanesyddol a'r tirlun lleol ac felly, dylai'r ardal barhau'n glir o fwy o dyrbinau gwynt.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Gwrthod am y rhesymau a ganlyn:

1. Byddai'r bwriad ar ei ben ei hun ac ar y cyd gyda'r tyrbinau sydd eisoes yn agos i'r safle yn niweidiol i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol oherwydd maint, lleoliad ac amlygrwydd y datblygiad arfaethedig a byddai'n cael effaith andwyol ar fwynderau gweledol trigolion gerllaw a'r rhai hynny sy'n defnyddio'r safle a'r ardal o'i gwmpas at ddibenion hamdden/mwynderol. Ystyrir bod y bwriad yn groes i bolisïau B23 ac C26, Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ar y Tir ac arweiniad sydd yn NTC 8.

2. Oherwydd ei faint, ei leoliad a'i amlygrwydd, byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar leoliad yr adeilad rhestredig Graddfa II a adwaenir fel Capel Bethel. O'r herwydd, ystyrir bod y bwriad yn groes i bolisïau C26, B3 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, Adran 66(1) y Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) ac i Gylchlythyr 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.

3. Oherwydd ei faint, ei leoliad a'i amlygrwydd, byddai'r bwriad yn cael effaith andwyol ar leoliad yr Henebion Cofrestredig a adwaenir fel Clostir Mynydd Mynyllod, Gwersyll Euni, Cylchoedd Cerrig Caer Euni a Charnedd Gron Cern Caer Euni. Nid yw, ychwaith, yn glir a gaiff y datblygiad effaith annerbyniol ar archeolegol nad yw wedi'i hadnabod ac a ellid lliniaru'r effeithiau'n foddhaol. O'r herwydd, ystyrir bod y cais yn groes i bolisi C26 a B7 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru a Chylchlythyr 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg.

4. Oherwydd nad oes digon o wybodaeth am yr effaith ar fwynderau preswyl o ran yr effeithiau gweledol, sy'n benodol gysylltiedig â'r eiddo a adwaenir fel 'Cistfaen' a 'Cae Iago', ystyrir bod y cais yn groes i bolisïau C26 a B23 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd.